



Trais yn erbyn menywod

Strategaeth a chynlluniau gweithredu

UNED CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Cyhoeddwyd Ebrill 2008
Argraffwyd Mehefin 2008

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
2	Cefndir a chyd-destunau	4
3	Yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni	8
4	Yr angen am fframwaith cyffredinol sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion y ddau ryw	11
5	Manteision strategaeth trais yn erbyn menywod	14
6	Casglu'r dystiolaeth	15
7	Heriau a chyfleoedd	18
8	Ar beth y byddwn yn canolbwyntio yn y tair blynedd nesaf – cynigion i'r dyfodol	19
9	Rheoli risg	21
10	Sut byddwn yn mesur cynnydd a llwyddiant	22
11	Amserlen ar gyfer datblygu'r strategaeth	23
12	Asesiad effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth	24
13	Cynlluniau gweithredu	25
Atodiad A		
	Cefndir a chyd-destunau	26
Atodiad B		
	Data cydraddoldeb ac amrywiaeth i hysbysu'r asesiad effaith	29
Atodiad C		
	Trefnau llywodraethol VAW	32
Atodiad D		
	Cynlluniau gweithredu 2008-11	33

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn cydnabod fod trais yn erbyn menywod yn un o faterion sylfaenol hawliau dynol. Hawliau dynol yw'r egwyddorion sydd wrth wraidd datblygiad gwaith ym maes Trais yn erbyn Menywod (VAW), gan dynnu ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a arwyddwyd ac a ddilyswyd gan y Deyrnas Unedig. Mewn cyfraith ryngwladol rhoddir cydnabyddiaeth benodol i ryddid rhag trais a chamdriniaeth mewn perthynas â hawliau dynol a rhyw y person. Ceir cydnabyddiaeth ryngwladol a chenedlaethol hefyd fod trais yn erbyn menywod yn un o achosion y gwahaniaethu cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach a brofir gan fenywod, ac yn ganlyniad iddo.
- 1.2 Mae trosedd yn effeithio ar holl gymunedau Cymru a Lloegr. Mae'r gyfraith droseddol yno i warchod holl aelodau ein cymdeithas a sicrhau bod y rhai sy'n torri'r gyfraith yn cael eu trin yn briodol. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, bwriad y CPS yw darparu fframwaith cyffredinol sy'n ymdrin â throseddau VAW a gyflawnwyd gan ddynion yn bennaf, o fewn dynameg o bŵer a rheolaeth. Er enghraifft, mae data gan y CPS yn dangos bod 89% o ddiodefswyr trais yn y cartref yn fenywod a 94% o'r rhai sy'n ei gyflawni yn ddynion.¹
- 1.3 Mae'r CPS wedi ymrwmo i gymhwsyo cyfraith droseddol yn deg a chyson fel y bydd y rhai sy'n cyflawni troseddau VAW yn cael eu trin yn briodol; fel bod diodefswyr a thystion yn derbyn cefnogaeth a gwarchodaeth briodol; a bod cymdeithas gyfan yn fwy diogel.
- 1.4 Mae gan y CPS weledigaeth, sef bod yn wasanaeth erlyn o safon fyd-eang. Ym mis Rhagfyr 2006, lansiodd y CPS Gynllun Cydraddoldeb Sengl (SES), i ddatblygu rhagor ar ein gwelliannau o ran cyflwyno cyfiawnder i bawb a chael ein gwerthfawrogi a'n parchu gan y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'n gweithwyr.
- 1.5 Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn rhoi sylw i linyddau cydraddoldeb o ran hil, rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd, oedran, crefydd neu gred a rhywioldeb. Hefyd, mae'n arddangos yr ymdriniaeth holistig at gydraddoldeb ac amrywiaeth a weithredir gan y sefydliad.
- 1.6 Mae'r Cynlluniau Gweithredu SES cysylltiol yn ymdrin â materion sy'n gyffredin i'r holl linyddau. Ceir hefyd gynlluniau penodol ar gyfer rhai linyddau, sy'n fodd i'r CPS ganolbwyntio ar y rhwymedigaethau allweddol dan bob un o'r tair dyletswydd gadarnhaol sy'n codi mewn perthynas â hil, rhyw ac anabledd. Mae datblygu strategaeth VAW fel rhan o *Gynllun Gweithredu Rhyw a Hunaniaeth o ran Rhywedd* yn ein helpu i fodloni rhan o'n rhwymedigaeth dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol (GED).
- 1.7 Mae'r CPS wedi cynnwys VAW yn y prif flaenoriaethau busnes ar gyfer 2008-11, ochr yn ochr â throseddau casineb ac ymgysylltu â'r gymuned.

¹ CPS Rhagfyr 2006 Darlun o Drais yn y Cartref.

- 1.8 Gosodir hyn yn erbyn cefndir o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Ers dechrau'r 90au, mae'r Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop oll wedi gosod VAW o fewn fframwaith hawliau dynol. Maent wedi argymhell bod llywodraethau yn datblygu cynlluniau gweithredu VAW cenedlaethol.
- 1.9 Yn y Deyrnas Unedig, mae ymgyrch Dileu Trais yn erbyn Menywod (EVAW)², a lanswyd ym mis Tachwedd 2005, yn glymblaid o sefydliadau a fu'n asesu ymdriniaethau adrannol y Llywodraeth o ran ymdrin â VAW.
- 1.10 Yn 2006, cafodd y CPS ei asesu am y tro cyntaf gan EVAW a chafodd y marciau uchaf ar draws y Llywodraeth am ei waith ar VAW. Cafwyd argymhelliad gan EVAW y dylai'r CPS wneud gwaith pellach i leihau cyfraddau athreulid mewn perthynas â threisio, trais yn y cartref, stelcio a cham-drin plant yn rhywiol. Argymhellodd hefyd fod y CPS yn cyflwyno dangosydd VAW i fonitro troseddau VAW a ddwynir gerbron llys.
- 1.11 Mae strategaeth VAW y CPS yn nodi'r weledigaeth ar gyfer datblygu ein gwaith VAW, gan adeiladu ar waith 2006-07, ac mae'n darparu cynlluniau gweithredu ategol ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Terminoleg

- 1.12 Yn y ddogfen hon, dylid cymryd bod pob cyfeiriad at 'ddynion' yn cynnwys 'bechgyn' a bod pob cyfeiriad at 'fenywod' yn cynnwys 'merched'. Defnyddiwyd y termau 'dynion' a 'menywod' er mwyn cynnwys unigolion trawsrywiol, boed nhw wedi cael ailbennu rhywedd yn ffurfiol ai peidio.

² Cafodd EVAW ei gydylynu yn 2005-06 trwy Gomisiwn Cenedlaethol y Menywod ac o 2006 ymlaen trwy Amnest Rhyngwladol.

2 Cefndir a chyd-destunau

2.1 Cyd-destun rhyngwladol

2.1.1 Mae cefndir yr agenda VAW yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Mae'r agenda rhyngwladol yn cynnwys gwaith y Cenhedloedd Unedig (UN) a Chyngor Ewrop (CoE).

2.1.2 Cenhedloedd Unedig

- Rhoddodd yr UN flaenoriaeth i waith VAW o fewn fframwaith hawliau dynol ers yn gynnar yn y 1990au. Yn 1995 arwyddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig Ddatganiad Beijing a'r Llwyfan Gweithredu ar VAW. Dyma ddiffiniad yr UN o drais yn erbyn menywod sy'n seiliedig ar eu rhyw:

“Trais a gyfeirir yn erbyn menyw, am ei bod yn fenyw, neu drais sy'n effeithio ar fenywod yn anghymesur. Mae'n cynnwys gweithredoedd sy'n achosi niwed neu ddiodefaint corfforol, meddyliol neu rywiol, bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu golli rhyddid o fath arall.”

- Ceir rhagor o wybodaeth am y Cenhedloedd Unedig a'i ddiffiniad ehangach o VAW yn Atodiad A.

2.1.3 Cyngor Ewrop

- Mae Cyngor Ewrop wedi datblygu nifer o fentrau i fynd i'r afael â VAW er 1993 ac ar hyn o bryd mae'n cynnal ymgyrch i fynd i'r afael â VAW,³ gan gynnwys trais yn y cartref, sy'n cael ei goruchwylio gan gyrchlu Ewropeaidd.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gan ddilyn diffiniad tebyg i ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig. Mae gwaith rhai Aelod-wladwriaethau wedi cynnwys mynd i'r afael â phornograffi hefyd.

2.2 Cyd-destun cenedlaethol

2.2.1 Cynlluniau cyflawni ar draws y llywodraeth

Ar hyn o bryd mae amrediad o Gynlluniau Cyflwyno a Gweithredu ar draws y Llywodraeth sy'n cael eu goruchwylio gan Grwpiau Rhyng-Weinidogol (IMG), gan gynnwys ynghylch trais yn y cartref, trais rhywiol, y fasnach mewn pobl a phuteindra. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad A.

2.2.2 Cydnabyddwyd y cysylltiadau cryfion rhwng trais yn y cartref a thrais rhywiol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Adlewyrchir hyn yn y ffaith mai'r un Gweinidog sydd bellach yn gyfrifol am y ddau IMG. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi cyfuno gwaith ar drais yn y cartref, trais rhywiol a phuteindra.

2.2.3 Mae'r Grwpiau Rhyng-Weinidogol ar Drais yn y Cartref a Thrais Rhywiol yn cael eu hadolygu yng ngoleuni datblygiad Cynllun Gweithredu Trosedd Treisgar ar draws y Llywodraeth. Bellach mae'r IMG

³ Lluniodd Cyngor Ewrop yr offeryn rhyngwladol cyntaf i gynnig strategaeth fyd-eang i rwystro trais ac amddiffyn dioddefwyr; datblygodd gynllun gweithredu VAW yn 2005; a datblygodd fframwaith monitro gydag Aelod-wladwriaethau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am eu cynnydd ar faterion VAW.

Lleihau Aildroseddu yn gyfrifol am weithredu *Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Corston*. Roedd Adroddiad Corston yn cynnig cysylltau rhwng y gwaith ar drais yn erbyn menywod a menywod sy'n droseddwyr.⁴

2.2.4 Mae'r Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb wedi nodi bod ymdrin â VAW a gwella'r modd yr ymdrinnir â menywod sy'n cyflawni troseddau ymhlith eu tair blaenoriaeth bennaf.

2.2.5 *Ymgyrch dileu trais yn erbyn menywod*

- Er 2005, bu ymgyrch EAW yn cynnal dadansoddiad bychan annibynnol o fentrau gan adrannau'r llywodraeth ym maes VAW – *"Making the Grade?"*
- Mae EAW yn argymhell strategaeth genedlaethol drwy'r Llywodraeth gyfan a chynlluniau gweithredu ym maes VAW. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan EAW sef *'Map of Gaps: The Postcode Lottery of Violence against Women Support Services'*, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), wedi tynnu sylw at anghysonderau yn y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer dioddefwyr VAW. Mae hyn yn awgrymu fod angen i waith y Llywodraeth ar VAW fod yn fwy 'cydgysylltiedig' ac iddo gael ei ariannu mewn ffordd gyson a chynaliadwy.
- Cred EAW y byddai ymdriniaeth strategol ac integredig tuag at VAW yn esgor ar lawer o fanteision. Rydym wedi nodi'r rhai sy'n debygol o effeithio ar y system cyfiawnder troseddol (CJS) ym mharagraff 5.
- Argymhelliad EAW o ran gwaith a wneir ym maes VAW gan y CPS yn y dyfodol oedd: *"sicrhau y cyflwynir cyfiawnder yn effeithiol mewn achosion o drais yn erbyn menywod"*.
- Cynhwysodd EAW ddangosydd a tharged argymelledig ar gyfer y CPS sef *"lleihau cyfraddau athreuliad mewn achosion treisio a thrais yn y cartref, stelcio a cham-drin plant yn rhywiol" a "chynyddu'r gyfran o droseddau treisgar yn erbyn menywod a ddwynir gerbron llys"*.
- Y mae'r strategaeth CPS hon ar VAW a'r cynlluniau gweithredu yn rhoi ystyriaeth i argymhellion EAW.
- Yn 2007, am yr ail flwyddyn yn olynol, cafodd y CPS y marc uchaf ar draws holl adrannau'r llywodraeth. Roedd y sgôr yn seiliedig ar ein gwaith yn 2006-2007 a'n cynlluniau i'r dyfodol ar VAW.

2.3 *Cyd-destun deddfwriaethol*

2.3.1 Cydnabyddir fod Trais yn erbyn Menywod yn fater hawliau dynol. Mae'r prif Erthyglau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n berthnasol yn cael eu rhestru yn Atodiad A.

2.3.2 Ceir gwarchodaeth rhag Trais yn erbyn Menywod mewn nifer o gonfensiynau Ewropeaidd eraill hefyd. Rhestrir y rhain yn Atodiad A hefyd.

2.3.3 Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 y sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR), sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithredu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol, a ddaeth i rym o fis Hydref 2007. O gofio bod trais yn erbyn menywod wedi'i wreiddio yn yr anghydraddoldebau a geir ledled cymdeithas rhwng dynion a menywod, mae'r GED yn cynnig ffordd i awdurdodau cyhoeddus edrych ar y ffyrdd y maent yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb systemig.

2.3.4 Er nad oes un trosedd arbennig o drais yn erbyn menywod, mae rhai troseddau penodol o fewn

⁴ *Adroddiad Corston* – Adroddiad gan y Farwnes Jean Corston ar adolygiad o fenywod â phriodweddau neilltuol sy'n eu gwneud yn agored i niwed, yn y system cyfiawnder troseddol, Mawrth 2007.

y gyfraith droseddol a all fod yn VAW. Er enghraifft, gellir erlyn drwgweithredwyr am droseddau treisio, ymosodiad rhywiol, y fasnach mewn pobl, puteindra, pornograffi plant a llurgunio organau rhywiol merched.

- 2.3.5 Ar gyfer rhai llinynnau VAW, nid oes troseddau penodol y gallwn eu defnyddio wrth erlyn. Fodd bynnag, os bydd trosedd yn dod o fewn polisi penodol neu o fewn diffiniad cytûn, yna fe'i erlynir felly. Er enghraifft, nid oes trosedd penodol o "drais yn y cartref", felly bydd achosion "trais yn y cartref" yn cael eu herlyn dan amrediad o droseddau eraill, o ymosod cyffredin hyd at lofruddiaeth. Bydd priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau anrhydedd yn cael eu herlyn o fewn y polisi trais yn y cartref a'u hadnabod trwy gyfrwng diffiniadau unigol. Bydd cam-drin plant a throseddau yn erbyn pobl hŷn yn cynnwys amrediad o droseddau hefyd, yn debyg i drais yn y cartref.
- 2.3.6 Mae'r llywodraeth wedi pasio nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf sy'n adlewyrchu mwy o ffocws ac ymrwymiad i ymdrin â thrais yn erbyn menywod. Amlinellir y rhain yn Atodiad A.
- 2.3.7 Mae'r gyfraith droseddol yn hanfodol o ran dwyn drwgweithredwyr gerbron llys, eto mae'r llysoedd sifil yng Nghymru a Lloegr yn darparu cymorth gwaharddol hanfodol i ddiodefwrwr sydd angen gwarchodaeth nad yw ar gael, o bosib, drwy'r llysoedd troseddol.
- 2.3.8 Gall VAW ddigwydd hefyd mewn sefyllfaoedd gweithio, er enghraifft trwy gyfrwng bwlio, aflonyddu a mathau eraill o wahaniaethu.
- 2.3.9 Yng nghyd-destun mewnfudo, gall menywod sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches ac a ddiodefodd drais corfforol neu rywiol yn eu gwlad wreiddiol, fod yn arbennig o agored i niwed. Gallant wynebu anhawster ychwanegol hefyd o ran na allant droi at arian cyhoeddus.

2.4 Cyd-destun aml-asiantaeth

- 2.4.1 Mae gwaith ar lawer o'r llinynnau ym maes VAW yn cael sylw ar hyn o bryd gyda phartneriaid mewn fframweithiau aml-asiantaeth lleol a chenedlaethol. Ochr yn ochr â'r cynlluniau cyflawni ar draws y llywodraeth, bydd rhai adrannau cyfiawnder troseddol y llywodraeth yn ymgynghori'n rheolaidd â phartneriaid allanol. Yn ychwanegol, mae yna nifer o fentrau ar draws y system cyfiawnder troseddol, megis y Rhaglen Llys Arbenigol Trais yn y Cartref, sy'n golygu gwaith partneriaeth rhwng adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau statudol, a sefydliadau cenedlaethol allweddol yn y sector gwirfoddol.
- 2.4.2 Mae gwaith aml-asiantaeth yr un mor hanfodol ar lefel leol. Dros y degawd diwethaf, datblygwyd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a Phartneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn, gan gydnabod pwysigrwydd gwaith partneriaeth o ran mynd i'r afael â materion lleol a sicrhau y cyflwynir canlyniadau.

2.5 Cyd-destun y CPS

- 2.5.1 Mae'r CPS wedi datblygu strategaeth a chynlluniau gweithredu ym maes trais yn erbyn menywod (VAW), nid yn unig i gydnabod mentrau y Cenhedloedd Unedig, Cyngor Ewrop ac EAW, ond hefyd i gydnabod y pwys a rydd y Gwasanaeth ar wella'r modd yr erlynir y troseddau hyn ac y cefnogir diodefwrwr yn y broses.
- 2.5.2 Newidiwyd y strategaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd. Cafwyd cyfanswm o 44 ymateb, gan sefydliadau anlywodraethol yn ogystal ag asiantaethau statudol. Roedd yr ymatebion yn dangos cefnogaeth eang i'r strategaeth ac ar gyfer fframwaith oedd yn cydnabod rhyw y person yn fwy cyffredinol.
- 2.5.3 Roedd ymgynghoriad y CPS hefyd yn cynnwys Grŵp Sicrwydd Prosiect VAW y CPS, y Bwrdd VAW,

Fforwm Atebolrwydd Cymunedol, Bwrdd Trais yn y Cartref a Bwrdd Prosiect Rheoli Perfformiad, a oeddynt oll yn cynnwys Prif Erlynwyr y Goron o nifer o Ranbarthau ac uwch staff y CPS. Rhoddwyd y dogfennau ar system Infonet y CPS hefyd ar gyfer ymgynghori gyda staff y CPS.

- 2.5.4 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu gwaith y CPS yn canolbwyntio ar wella erlyniadau ym maes llawer o droseddau sy'n ymwneud â rhyw y person. Er 2001, mae'r CPS wedi datblygu polisiau a chanllawiau ar drais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol, puteindra, a'r fasnach mewn pobl; ac yn fwy diweddar ar blant a phobl ifanc a throseddau yn erbyn pobl hŷn. Bellach, mae'n bosib rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r llinynnau gwaith unigol hyn, a gellir mynd i'r afael â phatrymau troseddu, fictimeiddio a chefnogaeth.
- 2.5.5 Cafodd y CPS arolygiadau ar drais yn y cartref a threisio a amlygodd feysydd ar gyfer gweithredu pellach.
- 2.5.6 Yr ydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf o fewn erlyniadau trais yn y cartref a chafwyd lefelau llwyddo amrywiol mewn meysydd eraill.
- 2.5.7 Mae Bwrdd y CPS yn cynnwys VAW yn ei brif flaenoriaethau ar gyfer 2008-11, ac mae VAW yn un o amcanion personol y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.
- 2.5.8 Bellach, rydym yn dymuno dod ag amryfal llinynnau gwaith VAW at ei gilydd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Sengl y CPS yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer datblygu un strategaeth VAW gydlynol, gyda chynlluniau gweithredu ategol, erbyn mis Mawrth 2008.
- 2.5.9 Bydd y strategaeth VAW yn rhoi sylw i waith o fewn gylch gorchwyl y CPS o safbwynt erlyn achosion, cefnogaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys staff y CPS; a chodi hyder y cyhoedd yn y CJS, fel yr amlinellir yn adran 3 isod.
- 2.5.10 Wrth wraidd y strategaeth bydd gwaith partneriaeth effeithiol ar lefel leol yn ogystal â chenedlaethol. Mae'r CPS wedi trefnu gwaith cenedlaethol gyda phartneriaid allanol ar amryw o llinynnau VAW. Er enghraifft, mae gan y gwaith ar drais yn y cartref drefn lywodraethu sy'n cynnwys Grŵp Ymgynghorol Allanol sy'n cynnwys sefydliadau trais yn y cartref o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau statudol sy'n rhoi cyngor yn chwarterol ar waith y CPS. Ar lefel Ranbarthol, mae'r CPS yn gweithio gyda chymunedau trwy drefniadau partneriaethau lleol (er enghraifft, fforymau trais yn y cartref a Phaneli Craffu ar Droseddau Casineb).

3 Yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni

3.1 Nodau cyffredinol

3.1.1 Nod y strategaeth VAW yw sicrhau y bydd yr ymateb wrth erlyn yn cael ei gydlynu ac yn gwella mewn ymateb i nifer o droseddau sy'n dod dan ymbarél VAW. Yn 2008-09, byddwn yn canolbwyntio ar sefydlu systemau er mwyn cyd-drefnu, rhesymoli a chyfannu gwaith ar draws y llinynnau VAW. Fe fydd hyn yn cynnwys ffocws ar resymoli cydgysylltwyr llinynnau VAW, erlynwyr arbenigol, datblygu Canllawiau VAW a dangosydd VAW a systemau i fonitro bodlonrwydd dioddefwyr, tystion a rhanddeiliaid. Yn 2009-11, bydd y pwyslais yn symud at ymgorffori'r strategath yn rhan o fusnes creiddiol y CPS, monitro perfformiad ar draws y llinynnau, monitro cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion a bodlonrwydd allanol.

3.1.2 Bydd y CPS yn rhoi sylw i waith o fewn ei gylch gorchwyl sy'n dod o dan ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig o VAW, heblaw troseddau gwladwriaethol, fel yr amlinellir yn Atodiad A. Bydd gwaith ar bornograffi ac aflonyddu rhywiol yn cael ei gynnwys yn unol â'r diffiniadau gan Weithrediaeth yr Alban a Chyngor Ewrop.

3.1.3 Yn benodol bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar:

- trais yn y cartref, gan gynnwys aflonyddu;⁵
- priodas dan orfod;
- yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd;
- llurgunio organau rhywiol merched;
- treisio a throeddau rhywiol;
- y fansach mewn pobl, gyda ffocws ar y fasnach mewn pobl er mwyn camfanteisio'n rhywiol;
- puteindra, gan gynnwys puteindra plant;
- troseddau yn erbyn pobl hŷn;
- cam-drin plant;⁶
- pornograffi – cyhoeddiadau anllad; ac
- aflonyddu rhywiol yn y gweithle.⁷

3.1.4 Bydd gwaith y CPS ar VAW yn canolbwyntio ar droseddau lle bydd canfanteisio rhywiol yn digwydd, mewn ystyr ehangach, nid yn unig lle bydd yna drais corfforol neu rhywiol gwirioneddol. Mae hyn yn unol â strategaethau ar draws y Llywodraeth. Er enghraifft, mewn perthynas â phuteindra, bydd

⁵ Defnyddir aflonyddu yn hytrach na'r term "stelcio" (a ddefnyddir gan EFAW) gan yr ymdrinnir ag achosion troseddol o stelcio dan Ddeddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997.

⁶ Ar hyn o bryd nid oes gan y CPS ddiffiniad ffurfiol ar gyfer cam-drin plant. Mae gwaith i ddatblygu diffiniad ar y gweill.

⁷ Eir i'r afael â phob math o aflonyddu sy'n droseddau fel rhan o drais yn y cartref. Ymdrinnir ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle, er nad yw'n drosedd, mewn perthynas â staff y CPS trwy Adnoddau Dynol.

⁸ Mae rhan o'r strategaeth buteindra sydd gan y Llywodaeth gyfan yn golygu ymateb i bryderon cymdeithas trwy atal y rhai sy'n creu'r galw am buteindra, a chael gwared ar y cyfle i buteindra allu digwydd ar y stryd. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch i rwystro plagio pen ffordd. Bydd gwaith y CPS yn cynnwys erlyn plagwyr pen ffordd yn ogystal â dod â'r rhai sy'n camfanteisio ar unigolion trwy buteindra gerbron eu gwell, yn ogystal â'r rhai sy'n cyflawni troseddau treisgar a rhywiol yn erbyn y rhai sy'n rhan o buteindra.

troseddau megis plagio pen ffordd (*kerb crawling*), yn cael eu cynnwys, gan fod y rhain yn annog camfanteisio ar fenywod trwy gefnogi'r rhai sy'n delio mewn cyffuriau ac yn camddefnyddio cyffuriau yn anuniongyrchol, yn ogystal â pharhau marchnad sy'n llawn trais a cham-drin.⁸

3.2 Amcanion

3.2.1 Dyma amcanion penodol y CPS mewn troseddau sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod:

- gwella erlyniadau;
- cynyddu hyder y cyhoedd;
- gwella cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr; a,
- mynd i'r afael ag unrhyw anghyfartaledd ar draws y llinynnau cydraddoldeb.

3.2.2 Bydd y strategaeth hon yn cynorthwyo i gyflwyno Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol, sef dod â rhagor o droseddwyr gerbron eu gwell a chynyddu hyder y cyhoedd (PSA 24), trwy ddarparu fframwaith a chynlluniau gweithredu ategol ar gyfer yr amryfal droseddau a amlinellir uchod. Yn ogystal, fe fydd yn helpu i gyflwyno PSA 23 o ran lleihau cyfradd y troseddau treisgar difrifol, gan gynnwys mynd i'r afael â'r troseddau mwyaf difrifol sy'n cynnwys trais rhywiol a thrais yn y cartref.

3.2.3 Bydd y strategaeth VAW yn cynorthwyo'r Llywodraeth i gyflawni ei rhwymedigaethau dan y Confensiwn i Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) a bydd hefyd yn helpu'r CPS fodloni ei rwymedigaethau dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol.

3.3 Mesur llwyddiant yn fras

3.3.1 Dyma'r targed PSA ar gyfer y system cyfiawnder troseddol a rennir gan y CPS, y Swyddfa Gartref (HO) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ar gyfer 2008-11 (PSA 24):

- Cyflwyno system cyfiawnder troseddol fwy effeithiol, tryloyw ac ymatebol i ddioddefwyr a'r cyhoedd trwy:
 - wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CPS o ran dod â throseddau gerbron llys;
 - gwella hyder y cyhoedd yn nhegwch ac effeithlonrwydd y CJS;
 - gwella'r profiad o'r CJS i ddioddefwyr a thystion;
 - deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hil ar gamau allweddol yn y CJS; ac
 - adennill asedau troseddol.

3.3.2 Mae Cynlluniau Busnes y CPS, y Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Rhywedd a Hunaniaeth o ran Rhywedd, oll yn adlewyrchu targedau tebyg blaenorol yn ymwneud â:

- chynyddu nifer y troseddau a ddwynir gerbron llys erbyn 2007-08;
- cynyddu hyder y cyhoedd yn y CJS – gan gynnwys hyder y cymunedau Duon a lleiafrifoedd ethnig (BME); a
- chynyddu bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion, gan barchu hawliau diffyneddion.

⁹ Y nod yw lleihau erlyniadau aflwyddiannus trwy fwy o bledion euog ac euogfarnau mewn treial heb leihau nifer yr achosion priodol sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol.

3.3.3 Mae'r CPS yn cydnabod y dylai mesurau llwyddiant roi sylw i gefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr yn ogystal â dwyn troseddwyd i gyfraith. Felly bydd y strategaeth VAW yn adlewyrchu'r mesurau hyn, sy'n gysylltiedig â'r cytundebau PSA canlynol sydd gan y CPS ar hyn o bryd:

- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CJS trwy ddod â mwy o droseddwyd troseddau VAW gerbron llys:
 - lleihau erlyniadau aflwyddiannus troseddau VAW;⁹
 - cyd-drefnu gwaith VAW;
 - rhesymoli gwaith VAW, gan gynnwys adnoddau a phersonél; a
 - rhannu arfer da ar draws llinynnau VAW.
- gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y CPS:
 - gwella mwy ar berfformiad y CPS o ran rhoi sylw i VAW a'n henw da yn y maes hwn yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Gwella cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion:
 - gweithio gydag asiantaethau partner i gefnogi dioddefwyr a thystion;
 - darparu a gwella cefnogaeth briodol ar gyfer dioddefwyr a thystion VAW; a
 - rhoi sylw i faterion VAW yn ymwneud â pholisïau ac arferion staff.
- Rhoi sylw i unrhyw anghyfartaledd ar draws yr holl llinynnau cydraddoldeb.

3.4 Darlunio llwyddiant yn 2011-12

3.4.1 Yma, rydym yn darlunio'r CPS yn 2011-12, yn cael ei gydnabod yn fwyfwy llwyddiannus yn y maes.

Erbyn 2011-12 byddem eisiau gweld:

- mwy o erlyniadau llwyddiannus o'r holl droseddau VAW, heb leihau nifer yr achosion priodol sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol;
- yr holl ddioddefwyr sy'n fenywod yn nodi cynnydd sylweddol yn lefelau'r gefnogaeth, y diogelwch a'u bodlonrwydd gyda'r CPS ar bob cam yn y broses;
- menywod o amryfal gymunedau yn nodi cynnydd sylweddol yn lefelau'r hyder yn y CPS;
- partneriaid o'r sector gwirfoddol sy'n ymwneud â'r CPS mewn perthynas â gwaith VAW yn cymeradwyo'r canlyniadau;
- arolwg thematig o VAW yn cymeradwyo cynnydd y CPS mewn blynyddoedd diweddar (2011-12);
- aseswyr allanol yn ystyried gwaith VAW y CPS yn gadarnhaol ac yn uchel;
- adnoddau erlyn arbenigol yn bodoli ym maes VAW ac yn gweithio'n effeithiol ar draws pob Rhanbarth CPS; a
- menywod a gyflogir gan y CPS yn nodi bod ganddynt lefel hyder uchel yn y modd y cânt eu cefnogi, neu y credant y byddent yn cael eu cefnogi, gan reolwyr wrth wynebu aflonyddu neu drais.

4 Yr angen am fframwaith cyffredinol sy’n rhoi ystyriaeth i anghenion y ddau ryw

4.1 Sail resymegol gyffredinol

- 4.1.1** Mae yna nifer o gategoriâu o droseddau sy’n cynnwys Trais yn erbyn Menywod (megis treisio) ac mae llawer o ddisgrifiadau cyffredinol o ymddygiad anghyfreithlon nad ydynt, ynddynt eu hunain, yn droseddau yn ôl y gyfraith ond mai menywod yw mwyafrif helaeth y dioddefwyr (megis trais yn y cartref). Y cysylltiad rhwng yr holl droseddau hyn yw, yn fwyaf aml, mai menywod yw’r dioddefwyr a dynion yw’r diffynnyddion. Yn aml, bydd natur y trosedd yn awgrymu bod y diffynnydd â dylanwad sy’n rheoli bywyd y dioddefwr mewn rhyw ffordd. Yn aml, fe fydd hyn yn digwydd mewn cyd-destun lle bydd grym yn cael ei gamddefnyddio, lle bydd y drwgweithredwr, a’r mwyafrif ohonynt yn ddynion, yn defnyddio’r grym hwnnw i reoli dioddefwyr sy’n fenywod – eu gorfodi, er enghraifft, i briodi, puteindra, pornograffi neu ryw.
- 4.1.2** Yn aml, fe fydd y diffynnydd a’r dioddefwr yn adnabod ei gilydd a gallant fod yn bartneriaid neu’n berthnasau. Mae’n eithaf posib y bydd natur y berthynas rhwng y ddau yn golygu bod gan y dioddefwr faterion ychwanegol i’w hystyried cyn y gall hyd yn oed roi gwybod i’r heddlu am y trosedd. Er enghraifft, efallai fod plant a/neu bobl ifanc yn rhan o’r sefyllfa, neu efallai fod lefel uchel o ddibyniaeth ariannol, a gallai hynny yn ei dro olygu y byddai ansicrwydd ariannol yn wynebu’r dioddefwr petai’r diffynnydd yn caei ei dynnu neu ei symud o’i hamgylchedd. Efallai fod angen rhoi sylw i faterion diwylliannol hefyd.
- 4.1.3** Pwrpas dod â llinynnau mwyafrif cyffredin VAW at ei gilydd yw er mwyn gallu defnyddio’r arbenigedd a’r profiad a fagwyd o safbwynt rhai llinynnau a chymhwysio hynny at llinynnau eraill sydd â’r un dynameg (er enghraifft, dynion yn bod yn dreisgar tuag at fenywod y maent mewn perthynas â hwy). Fe fydd hyn yn cynorthwyo erlynwyr i fod yn ymwybodol o amrywiaeth o faterion y gall fod yn rhaid rhoi sylw iddynt. Er enghraifft, dylai erlynwyr fod yn ymwybodol o’r potensial ar gyfer fictimeiddio dro ar ôl tro, sy’n ffactor o bwys mewn nifer o achosion o drais yn erbyn menywod. Nid yn unig y mae angen cefnogaeth arbenigol ar gyfer y dioddefwr, ond rhaid defnyddio ymdriniaeth arbenigol hefyd wrth erlyn y diffynnydd. Adlewyrchir hyn, er enghraifft, yn y polisiâu a’r canllawiau a ddarperir ar drais yn y cartref a threisio. Hefyd rhaid i bolisiau erlyn roi sylw i’r berthynas rhwng y dioddefwr a’r diffynnydd a’r cynnydd yn y tebygolrwydd y bydd y dioddefwr yn cael ei ddychryn a chyhuddiadau’n cael eu tynnu’n ôl.
- 4.1.4** Mae budd amlwg mewn dyfeisio strategaeth fel y gellir defnyddio ymdriniaeth gyffredin mewn achosion ble cyfeirir troseddau at fenywod a merched, oherwydd eu rhyw, neu mewn achosion sy’n effeithio’n anghymesur ar fenywod a merched fel dioddefwyr. Mae hon yn ymdriniaeth a gafodd ei ffafrio gan y Cenhedloedd Unedig ac EVAW.
- 4.1.5** Dylid ymdrin â materion VAW o fewn fframwaith sy’n rhoi ystyriaeth i ryw y person oherwydd:
- menywod yw mwyafrif y dioddefwyr yn y troseddau hyn (gweler paragraff 6);
 - dynion yw mwyafrif y diffynnyddion (gweler paragraff 6);
 - yn wahanol i ffurfiau eraill o droseddau treisgar, mae’r dioddefwr yn adnabod y rhan fwyaf o’r troseddwr, sy’n creu trosedd â dynameg mwy cymhleth o ran y dioddefwr yn ogystal ag o ran ymdriniaeth y system cyfiawnder troseddol;

- cyflawnir y rhan fwyaf o droseddau o fewn cyd-destun o bŵer a rheolaeth a ddefnyddir gan ddynion yn erbyn menywod – er enghraifft, eu gorfodi i briodi, puteindra, pornograffi neu ryw;
- mae yna berthynas agos benodol neu berthynas deuluol rhwng nifer o'r drwgweithredwyr a'r dioddefwyr – er enghraifft, trais yn y cartref, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd, llurgunio organau rhywiol merched (FGM), treisio o fewn perthynas, cam-drin plant o fewn y teulu neu droseddau yn erbyn y person hŷn. Mae'r ffaith fod yr agosrwydd hwn yn bodoli yn creu cyd-destun o reolaeth orfodol;
- os yw'r dioddefwr yn adnabod y troseddwr, mae'n creu trosedd â dymameg mwy cymhleth, o ran y dioddefwyr yn ogystal ag o ran ymdriniaeth y system cyfiawnder troseddol;
- os bydd cyswllt teuluol neu berthynas agos, mewn llawer o achosion VAW bydd yn arwain at amharodrwydd ymhlith dioddefwyr i roi gwybod i'r system cyfiawnder troseddol neu i aros yn y system ar ôl rhoi gwybod;
- mae'n bosib bod y cam-drin yn cael ei drefnu – fel yr hyn a geir, er enghraifft, yn y fasnach bobl er camfanteisio rhywiol a rhwydweithiau cam-drin plant yn rhywiol;
- mae'n ymddangos hefyd fod hanes o gamdriniaeth, yn enwedig cam-drin yn ystod eu plentyndod, yn gwneud menywod yn fwy agored i fathau eraill o drais – er enghraifft, ymosodiad rhywiol, aflonyddu neu drais yn y cartref fel pobl ifanc neu yn oedolion;
- bydd patrymau o reolaeth orfodol dros ddiodesddefwyr, a geir yn llawer o'r achosion hyn, yn aml yn arwain at sefyllfa lle bydd llai o allu gweithredu gan y diodesddefwyr – yn enwedig o ran plant a phobl ifanc, menywod wedi mewnfudo, a menywod a fu yn y fasnach bobl;
- y mae natur rhywiol i nifer o'r troseddau hyn – pornograffi, treisio, ymosodiadau rhywiol, puteindra, y fasnach mewn pobl ar gyfer y diwydiant rhyw, priodas dan orfod a rhai agweddau ar gam-drin plant. Mae hyn yn gwneud enwi ac adrodd hyd yn oed yn fwy cymhleth;
- rhaid i ailsefydlu, lle bynnag y bo modd, gydnabod yr achosion sydd wrth wraidd y pŵer a'r rheolaeth trwy herio diffyg parch ar sail rhyw y person.

4.2 Dynion fel diodesddefwyr trais

- 4.2.1 Mae'r strategaeth VAW yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer troseddau y nodwyd eu bod yn rhai a gyflawnir yn bennaf gan ddynion, yn erbyn menywod. Mae'r patrymau yn ôl rhyw a'r dymameg dan sylw yn neilltuol a rhaid eu cydnabod a'u deall er mwyn darparu gwasanaeth priodol ac effeithiol. Fodd bynnag, mae strategaeth a chynlluniau gweithredu VAW y CPS yn eistedd ochr yn ochr â pholisïau eraill cyffredinol (er enghraifft, ar drais yn y cartref a threisio), sy'n rhoi sylw i erlyn troseddau sy'n cynnwys trais. Mae ein holl bolisïau yn niwtral o ran rhyw y person, a byddant yn cael eu cymhwyso'n deg a chyfartal i holl ddiodesddefwyr troseddau.
- 4.2.2 Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar fenywod fel diodesddefwyr, mae'r CPS yn hollol ymwybodol y gall dynion hefyd fod yn ddiodesddefwyr (megis mewn achosion o dreisio a thrais yn y cartref). Bydd y diodesddefwyr hyn yn cael yr un mynediad at warchodaeth ac iawn cyfreithiol. Mae polisïau a threfniadau'r CPS ar ofal am ddiodesddefwyr a thystion yn gymwys ym mhob achos. Cydnabyddir effaith trais ar bob un diodesddefwr a bydd dynion sy'n ddiodesddefwyr yn cael eu trin ag urddas. Cynhelir asesiad o ddiogelwch ac anghenion y diodesddefwyr fesul achos unigol.
- 4.2.3 Wrth gydnabod dymameg VAW, ni fydd y CPS yn anghofio am y gamdriniaeth a gyfeirir tuag at ddynion neu a gyflawnir gan fenywod. Ni fydd rhyw y drwgweithredwr yn gwneud gwahaniaeth i'r modd y bydd y CPS yn ymdrin â dwyn troseddwr gerbron eu gwell. Byddwn yn dal i erlyn yr holl ddiffynyddion yn deg a chyfiawn, yn unol â'r *Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron*.

4.3 Croestorri – cydnabod amrywiaeth menywod

- 4.3.1 Er ein bod yn cyfeirio at 'fenywod' gydol y strategaeth, mae'r CPS yn cydnabod amrywiaeth menywod. Mae'r CPS yn hynod ymwybodol y gall ffactorau neu 'hunaniaethau' eraill effeithio ar brofiadau menywod sy'n destun trais, megis eu hethnigrwydd, hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, anabledd, rhywioldeb, crefydd neu gred, neu ddsbarth cymdeithasol.

- 4.3.2 Er y gall fod rhai elfennau cyffredin yn y profiadau ar sail rhyw'r person, wrth i ryw ryngweithio â hunaniaethau eraill gall arwain at brofiad gwirioneddol neilltuol o drais ar gyfer pob menyw unigol a gall 'gyfrannu at brofiadau unigryw o ormes a baint'.¹⁰ Mae'r CPS o'r farn fod deall y gwahanol hunaniaethau hyn – cyfeirir at hyn fel elfennau sy'n 'croestorri' (*intersectionality*) – yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod.
- 4.3.3 O ganlyniad i'r croestorri hwn, fe fydd profiadau menywod unigol o drais yn wahanol i'w gilydd. Gall menywod wynebu rhwystrau ychwanegol hefyd wrth gael mynediad at gyfiawnder. Er enghraifft, gallai lesbiad fod yn bryderus am roi gwybod am drais oherwydd ofn homoffobia, neu gael ei gorfodi i ddatgelu ei bod lesbiad ('*come out*'). Gallai menyw hŷn, anabl ei chael yn anodd rhoi gwybod am drais oherwydd ei hanabledd ac oherwydd ofnau na fyddai gwasanaethau ar gael iddi.
- 4.3.4 Heb fod yna un strategaeth gyffredinol, gydlynol ar drais yn erbyn menywod, mae'n bosib y byddai profiadau menywod yn cael eu trin mewn ffordd anghyflawn. Os na wneir y cysylltiadau rhwng y gwahanol agweddau ar hunaniaeth y fenyw, mae'n debygol y bydd ymateb yr erlyniad yn aneffeithiol. Cydnabyddwn fod profiadau gwahanol y menywod yn galw am ymatebion penodol gan y CPS.

¹⁰ Symington, A (2004) *Intersectionality: A Tool for Gender and Economic Justice*.

5 Manteision strategaeth trais yn erbyn menywod

5.1 Rydym wedi nodi'r manteision posib canlynol o gyfeirio gwaith y CPS ar y materion hyn dan ymbarél VAW:

- **llunio polisiau yn well**, gan y bydd yn cynnwys gwybodaeth am y rhywiau ac yn targedau'n briodol;
- **gwell sylw i'r gysylltiadau sy'n croestorri** rhwng troseddau VAW yn nhermau fictimeiddio a chyflawni troseddau, a sicrhau na fyddwn yn methu sylwi ar gysylltiadau rhwng gwahanol fathau o droseddu ac y cydlynir y gwaith (er enghraifft, y fasnach mewn pobl a phuteindra; priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau anrhydedd; trais yn y cartref, troseddau rhywiol a cham-drin plant);
- **tynnu sylw erlynwyr at natur amlwynebog erlyniadau o'r fath** (er enghraifft, cydnabod y gall lladdiadau er anrhydedd gynnwys trosedd rhyngwladol trefniedig sy'n gysylltiedig â masnachu pobl neu buteindra), a fydd yn cynorthwyo i gryfhau'r broses erlyn a dod â mwy o droseddwy'r gerbron eu gwell;
- **cydnabod y gall rhai dioddefwyr brofi mwy nag un trosedd**; er enghraifft, gallai menyw a fasnachir i Brydain gael ei gorfodi i buteindra trwy drais gan bartner. Os yw hi dan 16, mae hyn yn gyfystyr â cham-drin plentyn yn rhywiol;
- **gwell gweithio aml-asiantaeth** gan gynnwys cyd-gysylltu gwasanaethau, i sicrhau bod dioddefwr sy'n wynebu nifer o droseddau yn cael cefnogaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol a phriodol;
- **potensial i ddatblygu arbenigedd cyfannol** ar VAW a throsglwyddo gwybodaeth ar draws llinynnau VAW; a symud oddi wrth ymdriniaeth sy'n cadw at llinynnau neilltuol yn unig;
- **gellir rhannu arferion da ar draws y topigau**; er enghraifft, gwelliannau o ran casglu tystiolaeth yn well neu ddefnyddio Cyngorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (IDVA) a Chyngorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) wrth ddelio â dioddefwyr sy'n tynnu cyhuddiadau yn ôl;
- **gall dioddefwyr elwa yn sgil cefnogaeth i fynd i'r afael ag amrediad o faterion** a allai arwain hefyd at leihau'r tebygolrwydd o fictimeiddio pellach;
- **gostwng nifer y menywod sy'n troseddu yn y tymor hirach**; roedd *Adroddiad Corston* yn amlygu effaith camdriniaeth ar fywydau menywod yn y tymor hir, gan arwain at fwy o droseddu ganddynt hwythau;
- **ymgysylltu â'r gymuned yn fwy effeithiol ac effeithlon**;
- **llunio cyswllt â gwaith mwy ataliol** er mwyn datblygu atebion tymor hir;
- **datblygu ymdriniaeth sy'n targedu mwy**; a
- **ymdriniaeth fwy cyson ag achosion VAW er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn y CPS a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.**

6 Casglu'r dystiolaeth

6.1 Dadansoddi data ar gyfer cynlluniau VAW

6.1.1 Darperir data System Rheoli Data y CPS 2006-07 ar gyfer y llinynnau VAW lle mae data ar gael ar hyn o bryd. Darperir data ar niferoedd yr achosion ym mhob un o'r llinynnau hynny; eu targedau, lle bônt ar gael; cyfran y canlyniadau aflwyddiannus; a rhesymau allweddol dros unrhyw ganlyniadau aflwyddiannus. Cafodd y data rhwng Ebrill a Medi 2006 ei ddadansoddi hefyd er mwyn gweld unrhyw faterion cydraddoldeb neu amrywiaeth.

6.2 Swm a chanlyniadau pob llinyn VAW, 2006-07

6.2.1 Daw data am y diffynyddion, o'r cyhuddiad hyd at y canlyniad, o System Rheoli Data y CPS ar gyfer achosion a gafodd eu hamlygu yn rhai trais yn y cartref, treisio a cham-drin plant, wedi'u croesgyfeirio â phrif droseddau.¹¹ Dim ond yn ôl prif drosedd y ceir data am buteindra a'r fasnach mewn pobl, ac nid yn ôl diffynnydd na chanlyniad.¹² Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDIA) yn rhoi rhagor o ddata am y dadansoddiad yn ôl rhyw y person. Roedd cipolwg Rhagfyr 2006 ar drais yn y cartref yn dangos mai menywod oedd 89 y cant o'r dioddefwyr trais yn y cartref. Bu'r data hwn yn gyson er 2002. Mae'r data a gofnodir yr y System Rheoli Tystion ar gam cynnar a hyd yma nid yw'n ddigon cadarn i ni allu llunio casgliadau ystyrion. Serch hynny, o'r achosion a amlygwyd ac a ddadansoddiwyd yn yr EDIA ar gyfer treisio, menywod oedd 89 y cant o'r dioddefwyr; ar ar gyfer yr holl fathau o gam-drin plant, merched oedd 67 y cant o'r dioddefwyr. Mae data manylach yn y pwyntiau bwled isod ac yn nhabl 1 dros y dudalen.

- Mae'r targedau a osodwyd ar gyfer troseddau casineb yn ceisio lleihau canlyniadau aflwyddiannus. Yn y cyd-destun hwn, mae'r data uchod yn adlewyrchu gwelliannau mewn erlyniadau trwy ostwng niferoedd yr achosion aflwyddiannus.
- Mae'r data yn dangos y niferoedd uchel iawn o ddiffynyddion trais yn y cartref o'r holl achosion VAW a gofnodwyd. Roedd y canlyniadau aflwyddiannus ar gyfer trais yn y cartref yn 2006-07 (34.8 y cant) yn mynd y tu hwnt i'r targed o 36 y cant. Cyrhaeddodd yr erlyniadau llwyddiannus 65.2 y cant erbyn Ebrill 2007, sef cynnydd o 46 y cant ym mis Rhagfyr 2003. Erbyn Rhagfyr 2007, roedd yr erlyniadau llwyddiannus wedi cyrraedd 69.3 y cant.
- Ar gyfer achosion treisio, syrthiodd y canlyniadau aflwyddiannus o 50.8 y cant yn 2005-06 i 45.5 y cant yn 2006-07 ac ar gyfer troseddau rhywiol o 36.9 y cant i 31.4 y cant.
- Mewn achosion cam-drin plant, roedd y niferoedd uchaf o achosion a amlygwyd (*flagged*) ar gyfer troseddau rhywiol.
- Fe wnaeth canlyniadau erlyniadau aflwyddiannus ar gyfer yr holl achosion cam-drin plant a amlygwyd (lladdiadau, troseddau rhywiol a throseddau corfforol) syrthio o 30.9 y cant yn 2005-06 i 28.9 y cant yn 2006-07.

¹¹ Prif droseddau yw troseddau wedi'u grwpio sy'n cwmpasu: Lladdiadau, Troseddau Corfforol, Troseddau Rhywiol, Bwrgleriaeth, Lladrad, Dwyn a Thrafod, Twyll a Ffugiad, Difrod Troseddol, Troseddau Cyffuriau, Troseddau Trefn Gyhoeddus, Pob Trosedd Arall (heblaw Moduro), Troseddau Moduro, Gweinyddol a derfynir.

¹² Y data yw nifer y troseddau a gyrhaeddodd o leiaf un gwrandawriad yn y llysoedd ynadon a chowntiau mewn ditiad hefyd.

Tabl 1: Swm a chanlyniadau yn 2006 - 07 achosion trais yn erbyn menywod o'r cyhuddiad hyd at ganlyniad

	Trais yn y Cartref	Treisio	Troseddau rhywiol (heblaw treisio)	Cam-drin plant Lladdiadau	Cam-drin plant Troseddau rhywiol	Cam-drin plant troseddau corfforol	Puteindra	Y fasnach mewn pobl
Nifer y diffynyddion	57,361 (95% dynion)	3,262 (99% dynion)	8,165 (96% dynion)	30 (80% dynion)	3,801 (98% dynion)	2,306 (76% dynion)	647 plagio pen ffordd 115, plant; 214 elw/rheoli, (rhyw y person ddim ar gael)	116 (troseddau rhywiol yn gysylltiedig â masnachu; rhyw y person ddim ar gael)
Targedau i leihau erlyniadau aflwyddiannus	36%	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma	Dim targedau wedi'u gosod hyd yma
% canlyniadau aflwyddiannus a gafwyd¹³	34.8% (65.2% llwyddiannus)	45.5% (54.5% llwyddiannus)	31.4% (68.6% llwyddiannus)	16.7% (83.3% llwyddiannus)	30.5% (69.5% llwyddiannus)	27.8% (72.2% llwyddiannus)	Ddim ar gael gan fod y rhain yn cael eu cofnodi yn ôl troseddau yn hytrach na diffynyddion ¹⁴	

6.2.2 Y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer yr holl ddiffynyddion yn 2006-07 oedd 16.4 y cant o ganlyniadau aflwyddiannus neu 83.6 y cant yn llwyddiannus. Lle bo data ar gael am ganlyniadau llwyddiannus ar gyfer troseddau VAW (trais yn y cartref, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant), yn 2006-07 roedd cyfanswm o 74,925 o ddiffynyddion VAW gyda 49,093 o ganlyniadau llwyddiannus. Mae hyn yn gyfartaledd o 34 y cant o ganlyniadau aflwyddiannus neu 66 y cant yn llwyddiannus.

6.3 Rhesymau allweddol dros erlyniadau aflwyddiannus

6.3.1 O'r holl droseddau VAW, yn 2006-07, o ran data am resymau dros erlyniadau aflwyddiannus, nid oedd hyn ar gael ond ar gyfer achosion a amlygwyd yn rhai trais yn y cartref, treisio a cham-drin plant, wedi'u croesgyfeirio â chategoriâu prif droseddau. Mae'r tabl isod yn rhoi rhesymau allweddol dros erlyniadau aflwyddiannus fel y'u cofnodir ar y System Rheoli Achosion yn 2006-07.

6.3.2 Mae Tabl 2 (gyferbyn) yn dangos cyfran yr achosion aflwyddiannus mewn cysylltiad â materion dioddefwyr, rhybuddiadau a rhwymo. Felly mae'n darlunio rhai o'r anawsterau allweddol wrth erlyn yr achosion hyn.

6.4 Materion cydraddodeb ac amrywiaeth ar sail data Ebrill - Medi 2006

6.4.1 Fel uchod, ym mis Ebrill - Medi 2006, yr unig ddata sydd ar gael yw data am drais yn y cartref, treisio, troseddau rhywiol eraill a cham-drin plant (a rennir ymhellach yn lladdiadau, troseddau rhywiol, a throseddau corfforol). Ar gyfer Ebrill – Medi 2006, dim ond data am ryw ac ethnigrwydd sydd ar gael. O fis Ebrill 2007, mae anabledd a chrefydd/cred yn cael ei gofnodi hefyd ac o fis Tachwedd 2007 mae data am berthnasau un rhyw mewn achosion trais yn y cartref yn cael ei gofnodi. Mae data am oedran yn cael ei gofnodi o fis Ebrill 2008 a data am rywioldeb yn cael ei archwilio.

¹³ Mae canlyniadau aflwyddiannus yn cynnwys achosion a wrthodir, a ryddfernic ac a ollyngir yn ogystal â'r holl achosion a derfynir. Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynnwys pledion euog, euogfarn yn dilyn treial a phrawf yn absenoldeb y sawl a gyhuddir.

¹⁴ Canlyniadau ar gyfer diffynyddion yn unig y gellir eu cofnodi ac nid mewn perthynas â throseddau allweddol neilltuol, gan eu bod mewn bydoedd data ar wahân.

Tabl 2: Canlyniadau aflwyddiannus mewn achosion trais yn erbyn menywod, 2006-07

	Trais yn y Cartref	Treisio	Troseddau rhywiol (heblaw treisio)	Cam-drin plant Lladdiadau ¹⁵	Cam-drin plant Troseddau rhywiol	Cam-drin plant troseddau corfforol
Cyfanswm yr achosion a erlynwyd	57,361	3,262	8,165	30	3,801	2,306
Cyfanswm yr achosion a oedd yn aflwyddiannus	19,978	1,486	2,562	5	1159	642
Cyfanswm % canlyniadau aflwyddiannus	34.80%	45.50%	31.40%	16.70%	30.50%	27.80%
Rhesymau allweddol dros ganlyniadau aflwyddiannus oedd materion dioddefwyr, rhybuddiadau a rhwymo fel y rhestrir isod. Rhoddir pob un fel canran o gyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus. Ni ddarperir pob rheswm, felly nid yw'r cyfansymiau yn adio i 100%.						
Dioddefwr yn tynnu'n ôl	22.20%	10.90%	5.50%	20.00%	3.90%	9.50%
Dioddefwr ddim yn mynychu	9.60%	1.00%	1.80%	0.00%	0.80%	3.30%
Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi achos	15.70%	7.30%	4.50%	0.00%	5.30%	6.70%
Rhybuddiad¹⁶	1.4%	0.4%	2.0%	0.0%	0.8%	3.3%
Rhwymo	9.6%	0.0%	1.3%	0.0%	0.2%	6.7

6.4.2 Mae'r prif ddata sydd ar gael trwy System Rheoli Achosion y CPS a'r System Rheoli Tystion wedi cael ei ddefnyddio i hysbysu Aseiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y strategaeth VAW. Mae'r data allweddol yn cael ei grynhoi yn Atodiad B.

6.4.3 Nid yw'r ystadegau sydd ar gael am ethnigrwydd poblogaeth Cymru a Lloegr yn rhoi digon o fanylion fel y gellir llunio cymariaethau priodol. O'u cyfuno â'r gwerthoedd coll ar gyfer ethnigrwydd, golyga hyn na ellir ystyried yr ystadegau am ethnigrwydd yn dystiolaeth o unrhyw ymddygiad neilltuol ar ran cyfran o'r boblogaeth, nac yn dystiolaeth o ymateb y CPS i achosion sy'n cynnwys gwahanol gymunedau. Y cyfan mae'r ystadegau yn ei ddangos yw fod angen ymchwilio ymhellach.

¹⁵ Mae data lladdiadau yn y CPS yn cynnwys llofruddiaethau, ceisio llofruddio, bygythiadau neu gynllwynio i lofruddio, dynladdiad ac achosi marwolaeth trwy ddwysgipio cerbyd – os yw dioddefwr yn tynnu'r cyhuddiad yn ôl, rhaid i hyn ymwneud ag achosion nad ydynt yn llofruddio/dynladdiad.

¹⁶ Mae'r data hwn yn ymwneud ag achosion a gyhuddwyd ac sy'n arwain at rhybuddiad.

7 Heriau a chyfleoedd

7.1 Mae nifer o heriau mawr yn ein hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r strategaeth wedi peri her oherwydd ehangder a chymhlethdod y materion dan sylw;
- mae'r ffyrdd yr arferir edrych ar y materion wedi arwain at ymdriniaeth fesul llinyn unigol a'r her i'r dyfodol fydd cyfannu'r gwaith yn llwyr ar draws y llinynnau;
- mae'n bosib y bydd her o ran sicrhau cyfranogiad llawn a chefnogaeth oherwydd diffyg dealltwriaeth eang am ymdrin â'r troseddau hyn trwy ymdriniaeth sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion y ddau ryw (*gendered approach*);
- sicrhau eglurder gwaith gyda'r rhaglen waith ar droseddau casineb, sy'n gorgyffwrdd;
- ar hyn o bryd, ni ellir amlygu rhai o'r llinynnau VAW ar System Rheoli Achosion y CPS, mae trefn amlygu rhai yn wael ac mae llawer heb na tharged na monitro – byddwn yn rhoi sylw i hyn yng nghynlluniau gweithredu 2008-09;
- mae angen mwy o waith i ddatblygu system fonitro genedlaethol i asesu'r gefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr troseddau treisgar sensitif megis y rhai a gwmpasir o fewn y gwaith VAW;
- blaenoriaethau'n gwrthdaro o fewn pob llinyn; a
- dim digon o ddarpariaeth gwasanaethau sector gwirfoddol mewn rhai Rhanbarthau.

7.2 Y mae amryw o gyfleoedd hefyd:

- Mae Bwrdd y CPS wedi nodi bod VAW yn ei brif flaenoriaethau ac y bydd yn defnyddio'r cyfle hwn i wella erlyniadau a chanlyniadau mewn perthynas â'r holl droseddau hyn;
- Byddwn yn mynd ati i wella'r modd y mae llinynnau VAW yn cael eu cyd-gysylltu, eu gwella a'u rhesymoli er mwyn darparu erlyniadau mwy effeithiol a lleihau dyblygu gwybodaeth, cyngor neu swyddogaethau trwy:
 - darparu canllawiau a hyfforddiant ar y gorgyffwrdd rhwng materion;
 - ystyried rhesymoli cydgysylltwyr ar draws llinynnau VAW;
 - defnyddio erlynwyr wedi'u hyfforddi ac sy'n datblygu arbenigedd penodol ynghylch y materion hyn;
 - monitro'r materion;
 - nodi asiantaethau a all gynghori ar yr amryfal faterion hyn;
 - rhannu arferion da.

8 Ar beth y byddwn yn canolbwyntio yn y tair blynedd nesaf – cynigion i'r dyfodol

- 8.1 Rhwng 2008-2011, sef cyfnod y cytundebau PSA cyfredol, byddwn yn canolbwyntio ar y gweithredoedd a amlinellir ym mharagraffau 8.2 i 8.5. Bydd pob llinyn unigol o'r gwaith yn cael ei gysylltu â chynlluniau gweithredu cyfatebol ar draws y Llywodraeth, lle bônt i'w cael. Am ragor o fanylion am raglen waith y CPS, edrychwch ar y cynlluniau gwaith cenedlaethol, ar dudalen 34.
- 8.2 **Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CJS trwy ddod â mwy o droseddwr mewn troseddau VAW gerbron eu gwell:**
- **Lleihau erlyniadau aflwyddiannus troseddau VAW:**
 - **Arolygon Perfformiad Rhanbarthol** – cafodd dangosydd VAW ei gynnwys yn y system Arolygon Perfformiad Rhanbarthol o fis Ebrill 2008, gyda thargedau ar gyfer llinynnau VAW;
 - **cyswllt â llif gwaith prif ffrwd** – cyhuddo, cyfiawnder troseddol syml, cyflym, diannod (CJSSS), cyflwyno gofal i ddiodefwrwr a thystion, troseddau casineb ac ymgysylltu â'r gymuned;
 - **datblygu Canllawiau VAW** – cadw pob llinyn polisi ar wahân, gyda chanllawiau VAW cyffredinol i hysbysu erlynwyr am y cysylltiadau rhwng polisiâu a chanllawiau sydd eisoes yn bodloni, a goblygiadau o ran rhyw y person;
 - **erlynwyr arbenigol** – archwilio dichonolrwydd rhesymoli'r erlynwyr arbenigol sydd gennym eisoes ar draws llinynnau VAW er mwyn gwella erlyniadau VAW; a
 - **hyfforddiant** – cysylltu VAW â chynlluniau hyfforddi yn y dyfodol.
 - **Gwell cydgysylltu a rhesymoli gwaith ar draws llinynnau VAW:**
 - **Cydgysylltwyr Rhanbarthol** – rhesymoli'r cydgysylltwyr presennol ar draws y llinynnau VAW a datblygu swyddi penodol i gydgysylltwyr VAW;
 - **rhannu arferion da** – trwy gydgysylltwyr Rhanbarthol, Tîm VAW a Grŵp Sicrwydd Prosiect;
 - **cynyddu gwybodaeth a sail tystiolaeth y gwasanaeth** – trwy hyfforddi erlynwyr a gwell data am berfformiad a dadansoddi data.
- 8.3 **Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid:**
- cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned a rhanddeiliaid yn nhrefn lywodraethu VAW;
 - llunio cyswllt ar draws y Llywodraeth, yn benodol gyda'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i roi sylw i hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid;
 - datblygu ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori ar lefel gwlad a Rhanbarth;
 - Gweithio gyda Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a Phartneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn ar lefel Ranbarthol;
 - gweithio mewn partneriaethau aml-asiantaeth a fforymau lleol i roi sylw i oblygiadau'r troseddau hyn o safbwynt y ddau ryw;
 - gweithio gydag asiantaethau cefnogi arbenigol ac Unedau Gofal Tystion sy'n darparu cefnogaeth i ddiodefwrwr y troseddau hyn; a
 - datblygu dulliau o fesur safbwyntiau rhanddeiliaid.

8.4 Gwella'r gefnogaeth, y diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion:

- darparu a gwella cefnogaeth briodol i ddioddefwyr a thystion VAW trwy'r sector VAW arbenigol;
- gweithio ar draws y llywodraeth ar ehangu rhagor ar gynlluniau Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (IDVA), Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a Chynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC). Rhoddir ystyriaeth hefyd i gefnogaeth arbenigol ac asesiadau risg ar gyfer yr holl droseddau VAW;
- cyswllt ar draws y llywodraeth ar gyfer yr holl linyddau VAW unigol;
- ystyried systemau ar gyfer unedau WCU i gefnogi dioddefwyr VAW a sicrhau y gellir monitro'r canlyniadau;
- ystyried gosod y drefn o ddethol rhagor o SDVCau yn y prif ffrwd;
- ystyried opsiwn SDVC i ymdrin ag amrywiaeth o achosion VAW gan gynnwys achosion a ddaw gerbron Llys y Goron;
- cynnwys amrediad o asiantaethau i gynghori ar yr agwedd hon o'r rhaglen;
- datblygu system i fesur mynediad dioddefwyr at gefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd;
- mynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau o ran polisiâu ac arferion staff; ac
- ystyried briffio staff Adnoddau Dynol ar ymdrin â materion VAW o safbwynt y staff.

8.5 Gwella ein dealltwriaeth o'r materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn troseddau VAW a rhoi sylw i unrhyw anghyfartaledd:

- nodi'r materion sy'n wynebu amrywiaeth o gymunedau;
- ymgynghori ac ymgysylltu ag asiantaethau arbenigol sy'n gweithio gyda dioddefwyr troseddau VAW i ddarparu cefnogaeth arbenigol sy'n briodol yn ôl rhyw y person, ethnigrwydd a phroffiliau amrywiaeth eraill; a
- monitro llinyddau VAW yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd, crefydd/cred, oedran a, lle bo modd, rhywioldeb.

9 Rheoli risg

- 9.1 Cafodd cofrestr risg ei chynhyrchu mewn ymgynghoriad â chynghorwyr mewnol ac allanol ar y Grŵp Sicrwydd Prosiect VAW, yn ogystal â Phwyllgor Strategaeth, Polisi ac Amrywiaeth y CPS.
- 9.2 Dyma'r risgiau mawr a nodwyd gennym, ac yr ydym yn cynllunio ar gyfer eu rheoli:
- mae'r amserlenni ar gyfer y prosiect yn fyr iawn a phrin yw'r amser ar gyfer unrhyw lithriadau;
 - oherwydd y safbwyntiau sydd eisoes yn bodoli am y materion, gallai arwain at ymagwedd fydd yn ymdrin â'r prosiect yn ôl llinynnau unigol;
 - cyfyngedig yw'r rhai a ddaeth i gefnogi'r strategaeth, oherwydd nad oes dealltwriaeth eang o'r cyd-destun o ran y rhywiau ar gyfer yr agenda VAW;
 - adnoddau a phersonél cyfyngedig ar gael ar gyfer datblygu a gweithredu'r strategaeth; a
 - blaenoriaethau croes rhwng holl llinynnau'r gwaith VAW sy'n cael ei resymoli a'i gydlynu o dan y strategaeth hon.

10 Sut byddwn yn mesur cynnydd a llwyddiant

10.1 Ar hyn o bryd yr unig ddangosydd sy'n ymwneud â VAW yw'r un ar gyfer troseddau casineb, sy'n cynnwys trais yn y cartref, troseddau dwysach hiliol a chrefyddol, troseddau homoffobig a throseddau dwysach oherwydd anabledd.¹⁷ Mae yna darged ar gyfer 2007-08 sef 72 y cant o ganlyniadau llwyddiannus ar gyfer yr holl droseddau casineb, gyda tharged penodol o 70 y cant o ganlyniadau llwyddiannus ar gyfer achosion trais yn y cartref. Am ragor o fanylion y monitro, edrychwch ar y cynllun gweithredu cenedlaethol ar dudalen 34.

10.2 Monitro troseddau VAW, gosod targedau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y data:

- **Dangosydd, amlygu a thargedau** – sefydlu dangosydd VAW gyda dulliau amlygu (*flagging*) ac isdargedau ar gyfer yr amrediad o lynnau VAW a rhoi sylw i sut y byddai hyn yn ffitio gyda'r Dangosydd Trosedd Casineb cyfredol. Byddai hwn yn darged â ffocws ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus â chanlyniad yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Galluoedd.
- **Monitro** – parhau i gofnodi a monitro achosion trais yn y cartref a threiso; yn ychwanegol at fonitro troseddau rhywiol yn 2008-09 ac ystyried cofnodi a monitro rhagor o lynnau VAW o 2009.
- **Dadansoddi** – gwerthuso data sy'n cael ei fonitro gyda gwaith dadansoddi pellach yn ôl proffil diffynyddion a dioddefwyr a chroes-ddadansoddi gyda throseddau eraill, yn enwedig troseddau casineb.¹⁸
- **Adroddiad VAW** – paratoi adroddiad perfformiad VAW yn 2008-09, yn gysylltiedig ag Adroddiad Trosedd Casineb newydd, ar sail data 2007-08.
- **Panelli Craffu ar Gasineb** – ystyried sut y bydd VAW yn ffitio gyda fframwaith y Paneli Craffu ar Gasineb.

10.3 Monitro cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr:

- Arolygu'r ddarpariaeth o ran y gwasanaethau hyn i ddioddefwyr a thystion VAW.
- Datblygu system i fesur diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr. Mae arolwg cenedlaethol WAVES yn mesur bodlonrwydd mwyafrif y dioddefwyr a thystion ond nid yw'n cynnwys dioddefwyr treisio, ymosodiadau rhywiol a thrais yn y cartref oherwydd materion diogelwch o ran ceisio cysylltu â nhw. Mewn perthynas â threiso, ar hyn o bryd mae Uned Cyflwyno ar Dreisio y CPS yn cysylltu ag Uned Trosedd Treisgar y Swyddfa Gartref, sy'n cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i fesur bodlonrwydd dioddefwyr troseddau rhywiol difrifol. Bydd cynlluniau gweithredu VAW ar gyfer 2008-09 yn adeiladu ar brofiad y Swyddfa Gartref o fesur safbwyntiau dioddefwyr sy'n cael eu hepgor gan arolwg cenedlaethol WAVES ar hyn o bryd.

10.4 Monitro hyder rhanddeiliaid:

- Datblygu dulliau i fesur safbwyntiau rhanddeiliaid. Bydd y Tîm VAW yn pennu rhychwant y prosiect hwn yn gyntaf, yna'n cyflwyno'r dewisiadau i'r Grŵp Sicrwydd Prosiect gan gynnwys rhanddeiliaid, ac wedi hynny yn llunio cynigion manwl.

¹⁷ Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosydd VAW. Yn y dyfodol, bydd trais yn y cartref yn cael ei fonitro fel rhan o'r dangosydd hwnnw yn hytrach na'r dangosydd troseddau casineb.

¹⁸ Ar gyfer Ebrill - Medi 2006, dim ond data rhyw ac ethnigrwydd sydd ar gael. O fis Ebrill 2007, bu anabledd a chrefydd/cred yn cael ei gofnodi ac o fis Tachwedd 2007 bu data am berthnasau un rhyw mewn achosion trais yn y cartref yn cael ei gofnodi hefyd.

11 Amserlen ar gyfer datblygu'r strategaeth

11.1 Amlinellir y drefn Lywodraethol yn Atodiad C.

Sefydlu grŵp sicrwydd prosiect a Bwrdd VAW	Gorffennaf 2007
Cyfarfod bwrdd cyntaf y Bwrdd VAW	Gorffennaf 2007
Drafftio strategaeth a chynlluniau gweithredu VAW	Awst 2007
Drafft i'r Pwyllogr Strategaeth, Polisi ac Amrywiaeth	Awst 2007
Asesiad Effaith	diwedd Awst 2007
Cyfarfod cyntaf y Grŵp Sicrwydd Prosiect (PAG)	wythnos gyntaf Medi 2007
Ail gyfarfod y Bwrdd	Medi 2007
DPP, SG ac AG yn clirio copi drafft ar gyfer ymgynghoriad*	Hydref 2007
Ymgynghoriad ehangach ar adroddiad VAW (Tachwedd – Ionawr)	Ionawr 2008
Cyfarfod PAG i gadarnhau'r ddogfen derfynol	Chwefror 2008
Cyfarfod Bwrdd i gadarnhau'r ddogfen derfynol	Mawrth 2008
DPP, SG ac AG yn clirio'r dogfennau terfynol	Mawrth 2008
Strategaeth a chynlluniau gweithredu VAW yn derfynol	Ebrill 2008

* Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), y Cyfreithiwr Cyffredinol (SG), y Twrnai Cyffredinol (AG)

12 Aseiad effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth

- 12.1 Cynhaliwyd Aseiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDIA) i nodi'r materion sy'n wynebu gwahanol gymunedau. Defnyddiwyd data cenedlaethol ar gyfer holl linyddau VAW. Cafodd data CPS ei ddefnyddio hefyd, ond ar hyn o bryd nid yw ond yn cael ei ddioli yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn perthynas â thrais yn y cartref, treisio a cham-drin plant.
- 12.2 Mae'r EDIA yn cynnwys dadansoddiad o'r data y cyfeirir ato uchod, yn ogystal â chanlyniadau proses ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2007 a mis Ionawr 2008.
- 12.3 Cyhoeddir EDIA terfynol ochr yn ochr â'r strategaeth VAW ym mis Ebrill 2008.
- 12.4 Fe fydd y materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodir yn yr EDIA yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn cael sylw trwy gyfrwng y Grŵp Sicrwydd Prosiect ar gyfer VAW.

13 Cynlluniau gweithredu

- 13.1** Mae cynllun gweithredu cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod (VAW) yn cael ei nodi yn Atodiad D. Fe'i trefnir yn unol â'r targedau PSA ac mae'n dangos y cysylltiadau rhwng gwahanol linyddau unigol VAW. Bydd yn cael ei ehangu trwy gynnwys themâu yn chwarter cyntaf 2008-09.
- 13.2** Mae yna hefyd wyth o gynlluniau gweithredol sy'n benodol i'r llinyddau unigol, a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith monitro ar draws y llinyddau unigol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r prif linyddau VAW – trais yn y cartref, priodas dan orfod a throseddau anrhydedd, llurgunio organau rhywiol merched, treisio a throseddau rhywiol, y fasnach mewn pobl, puteindra, troseddau yn erbyn pobl hŷn, pornograffi a cham-drin plant. Cawsant eu datblygu mewn cyswllt â swyddogion arweiniol perthnasol yng Nghyfarwyddiaeth Polisi y CPS, y Gyfarwyddiaeth Datblygu Busnes (BDD) a'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDU). Mae'r rhain ar gael ar eich cais.
- 13.3** Y mae'n eglur o gynnwys y cynlluniau gweithredu sy'n benodol i linyddau unigol, y bydd gwaith i ymdrin â phob un o'r llinyddau VAW yn dechrau ar gamau gwahanol iawn i'w gilydd (er enghraifft, megis dechrau y mae gwaith y CPS ar drais yn seiliedig ar anrhydedd a phriodas dan orfod, tra bo gwaith ar drais yn y cartref wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf). O ganlyniad, er ein bod yn derbyn y bydd gwaith ar bob llinydd yn mynd rhagddo ar wahanol gyflymder, y canlyniad dymunol yw y dylai pob llinydd gyrraedd ei dargedau cenedlaethol ei hun erbyn 2011.
- 13.4** Mae'r holl gynlluniau gweithredu yn mynd o 2008 tan 2011, ond byddant yn cael eu harolygu'n barhaus. Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.1.1, bydd 2008-09 yn canolbwyntio ar resymoli a chydlynu'r holl linyddau VAW, gan nodi'r goblygiadau o ran cost ochr yn ochr â sefydlu systemau i weithredu'r strategaeth, megis y system rheoli perfformiad a systemau o fonitro bodlonrwydd dioddefwyr, tystion a rhanddeiliaid. Yn 2009-11 bydd y strategaeth yn cael ei hymgorffori ym musnes creiddiol y CPS a rhoddir y canllawiau VAW ar waith yn ogystal â hyfforddiant, ac adrodd ar berfformiad erlyniadau. Fe fyddwn ni hefyd yn monitro diogelwch dioddefwyr a'r gefnogaeth a roddir iddynt ac yn monitro bodlonrwydd dioddefwyr a rhanddeiliaid.

Atodiad A: Cefndir a chyd-destunau

Cyd-destun rhyngwladol

Cenhedloedd Unedig:

- Rhoddodd y Cenhedloedd Unedig (UN) faterion VAW o fewn y fframwaith hawliau dynol am y tro cyntaf yn 1993, ac yn 1995 arwyddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Ddatganiad Beijing a'r Llwyfan ar gyfer Gweithredu (BPfA) ar fater VAW.
- Trwy gyfrwng y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) ac Erthygl y Cenhedloedd Unedig sy'n gwahardd arteithio, daeth VAW o'r byd preifat i'r byd cyhoeddus a thrwy wneud hynny maent wedi cydnabod bod VAW yn torri ar hawliau dynol sylfaenol menywod.
- Diffiniodd y Cenhedloedd Unedig VAW yn y termau canlynol:

"Mae trais yn erbyn menywod yn cyfeirio at unrhyw weithred o drais yn seiliedig ar ryw y person sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, niwed neu ddiodefaint corfforol, rhywiol neu seicolegol i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu golli rhyddid ar fympwy, boed hynny'n digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu breifat. Deellir y bydd trais yn erbyn menywod yn cwmpasu, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

(a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin plant benywol yn y teulu yn rhywiol, trais yn ymwneud â gwaddol priodasol, treisio o fewn priodas, llurgunio organau rhywiol merched, ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais nad yw'n briodasol a thrais yn gysylltiedig â chamfanteisio;

(b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd o fewn y gymuned gyffredinol, gan gynnwys treisio, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgiadol ac mewn manau eraill, y fasnach mewn menywod a phuteindra dan orfod;

(c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a gydoddefir gan y Wladwriaeth, lle bynnag y bo'n digwydd."

- Yn 2006, cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig ddiffiniad cryno o drais yn erbyn menywod a oedd yn ailadrodd a diffinio'r diffiniad uchod. Ymhellach, diffiniodd yr UN drais ar sail rhyw'r person yn erbyn menywod, fel hyn:

"Trais a gyfeirir yn erbyn menyw, am ei bod yn fenyw, neu drais sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae'n cynnwys gweithredoedd sy'n achosi niwed neu ddiodefaint corfforol, meddyliol neu rywiol, bygythiadau gweithredoedd o'r fath, gorfodaeth a cholli rhyddid o fathau eraill."

Cyd-destun cenedlaethol

Cynlluniau cyflawni ar draws y llywodraeth:

Mae yna nifer o Gynlluniau Gweithredu a Chyflawni ar draws y llywodraeth ar gyfer 2007-08 yn ymwneud â VAW, sy'n cael eu goruchwylio gan Grwpiau Rhyng-Weinidogol. Yn eu plith:

- *Cynllun Cyflwyno Trais yn y Cartref Cenedlaethol*, a oruchwyilir gan y grŵp Rhyng-Weinidogol ar Drais yn y Cartref;
- *Cynllun Gweithredu Trais a Cham-drin Rhywiol*, a oruchwyilir gan y grŵp Rhyng-Weinidogol ar Droseddau Rhywiol;
- *Cynllun Gweithredu y DU ar Ymdrin â'r Fasnach mewn Pobl*, a oruchwyilir gan y grŵp Gweinidogol Rhyng-Adrannol ar y Fasnach mewn Pobl; a
- *Strategaeth Puteindra y DU*, a oruchwyilir gan Dîm Arolygu Puteindra y Swyddfa Gartref.

Mae'r Grwpiau Rhyng-Weinidogol ar Drais yn y Cartref a Thrais Rhywiol yn cael eu harolygu yng ngoleuni datblygu Cynllun Gweithredu Troseddau Treisgar ar draws y Llywodraeth. Yr IMG Gostwng Aildroseddu sydd bellach yn gyfrifol am weithredu Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Corston (a oedd yn cynnig y dylid llunio cysylltiadau rhwng y gwaith ar drais yn erbyn menywod a menywod sy'n droseddwyr).¹⁹

Gweithrediaeth yr Alban:

Hysbysir y gwaith ar Drais yn erbyn Menywod gan enghreifftiau yn nes adref hefyd. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Gweithrediaeth yr Alban fframwaith strategol drafft ar Drais yn erbyn Menywod.

Mae'r diffiniad a fabwysiadwyd gan Weithrediaeth yr Alban yn debyg i ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig a Chyngor Ewrop ond mae'n cynnwys camfanteisio rhywiol masnachol a phornograffi a'r fasnach mewn pobl;

"Mae trais yn erbyn menywod yn cwmpasu'r canlynol ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- *Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, o fewn y gymdeithas yn gyffredinol, neu yn y sefydliadau, gan gynnwys: cam-drin yn y cartref; treisio; llosgach a cham-drin plant yn rhywiol;*
- *Aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith ac yn y byd cyhoeddus; camfanteisio rhywiol masnachol, gan gynnwys puteindra, pornograffi a'r fasnach mewn pobl;*
- *Trais yn gysylltiedig â gwaddol priodasol;*
- *Llurgunio organau rhywiol merched;*
- *Priodasau dan orfod a phriodasau plant;*
- *Troseddau anrhydedd."*

Cyd-destun deddfwriaethol

Confensiynau Ewropeaidd:

Cydnabyddir fod trais yn erbyn menywod yn fater hawliau dynol. Y prif Erthyglau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n berthnasol yw:

- Erthygl 2 – yr hawl i fywyd. Mae hwn yn hawl sylfaenol, a gedwir ac a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd.
- Erthygl 3 – y gwaharddiad yn erbyn arteithio. Mae'r hawl hwn yn ymdrin ag unigolion yn cael eu gwarchod rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol a berir gan unigolyn preifat arall.
- Erthygl 8 – yr hawl i gael bywyd preifat a theuluol.

¹⁹ *Adroddiad Corston* - Adroddiad gan y Farwnes Jean Corston ar adolygiad o fenywod â phriodweddau neilltuol sy'n eu gwneud yn agored i niwed, yn y system cyfiawnder troseddol, Mawrth 2007.

Ceir gwarchodaeth rhag Trais yn erbyn Menywod mewn nifer o gonfensiynau Ewropeaidd eraill hefyd, gan arddangos ehangder a phwysigrwydd y mater. Dyma enghreifftiau o rai confensiynau allweddol eraill:

- Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW);
- Confensiwn yn Erbyn Arteithio a Thriniaethau neu Gosbau eraill Creulon, Annynol a Diraddiol;
- Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn; a
- Confensiwn yn Erbyn Trosedd Trefniedig Trawsgenedlaethol, gan gynnwys y Protocol i rwystro, atal a chosbi masnachu mewn pobl, yn enwedig menywod a phlant.

Deddf Cydraddoldeb 2006:

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2006 yn sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR). Bydd gan y Comisiwn nifer o ddyletswyddau, gan gynnwys monitro pa mor effeithiol yw'r ddeddfwriaeth, pa mor effeithiol y gorfodir y ddeddfwriaeth, yn ogystal â swyddogaeth ymchwiliol mewn rhai amgylchiadau. Felly fe fydd yr CEHR yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol (GED), a ddaeth i rym o fis Hydref 2007. Mae'r GED yn fecanwaith pwysig y gellir ei ddefnyddio ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. Dan y ddyletswydd rhaid i awdurdodau cyhoeddus perthnasol hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a rhoi 'ystyriaeth ddyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu rhwng dynion a menywod. O gofio'r ffaith fod trais yn erbyn menywod yn tarddu o'r anghydraddoldebau strwythurol rhwng dynion a menywod, mae'r GED yn darparu modd i awdurdodau cyhoeddus edrych ar y ffyrdd y maent yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb systemig.

Deddfwriaeth ddiweddar arall yn gysylltiedig â VAW:

- Deddf Trosedd a Dioddefwyr Trais yn y Cartref 2004 (DVCVA 2004) yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn ymwneud yn benodol â thrais yn y cartref am 30 mlynedd. Ymhlith y darpariaethau allweddol y mae:
 - ei gwneud hi'n drosedd torri gorchymyn 'peidio ag ymyrryd';
 - rhoi'r grym i'r llysoedd osod gorchymynion atal ar gyfer unrhyw drosedd, adeg euogfarn neu ryddfarn; a
 - chyflwyno trosedd newydd sef 'lladdiad teuluol'.
- Cafodd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymdrin â throseddau rhywiol ei archwilio'n llwyr gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (SOA 2003). Roedd SOA 2003 yn ehangu diffiniadau rhai troseddau. Er enghraifft, bellach mae gosod pidyn yn y geg heb gydsyniad yn cael ei ddiffinio fel treisio. Roedd y ddeddf hefyd yn creu troseddau newydd, megis talu am ryw gyda phlentyn a 'voyeuriaeth' ac yn ymestyn oed bod yn 'blentyn' o 16 i 18 ar gyfer rhai troseddau penodedig.
- Roedd SOA 2003 hefyd yn cyflwyno trosedd newydd o 'fasnachu pobl i mewn, oddi mewn ac allan o'r wlad er dibenion camfanteisio rhywiol'. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi llofnodi Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu Pobl. Mae'r ddeddfwriaeth a'r rhwymedigaethau dan y Confensiwn yn cyfuno i gosbi drwgweithredwyr mewn achosion masnachu pobl, gan gynnig cefnogaeth a chymorth i ddioddefwyr.
- Roedd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (CJA 2003) yn archwilio darpariaethau achlust, y rheolau am gymeriad gwael, a'r amgylchiadau pryd y gall tyst gael procio'r cof. Mae CJA 2003 hefyd yn darparu canllawiau trefniadaethol ar gyfer derbyn datganiadau blaenorol a datganiadau anghyson blaenorol.
- Roedd Deddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003 yn diddymu Ddeddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985 ac yn fwlch yn y ddarpariaeth a oedd yn golygu y gellid mynd â dioddefwyr allan o'r DU ar gyfer llurgunio organau rhywiol merched, heb unrhyw sancsiynau ar y drwgweithredwyr. Mae awdurdodaeth ryngwladol y Ddeddf bellach yn caniatáu erlyn dinasyddion y DU neu ddinasyddion parhaol am gynorthwyo ac annog, cwnsela neu gaffael cyflawni FGM, hyd yn oed mewn gwledydd lle bo'n gyfreithlon.

Atodiad B: Data cydraddoldeb ac amrywiaeth i hysbysu'r asesiad effaith

Trais yn y cartref

- Dynion oedd 95 y cant o ddiffynyddion trais yn y cartref.
- O Ebrill – Medi 2006-07, dangosodd data lladdiadau bod yna 76 o ddiffynyddion yn ystod Ebrill – Medi 2006-07 gyda 87 y cant ohonynt yn ddynton.²⁰
- Cofnodwyd 2,740 trosedd aflonyddu.²¹
- Mae'r sefyllfa o ran ethnigrwydd yn fwy cymhleth. Dengys data'r Swyddfa Gartref fod pobl Dduon ac Asiaid dan amheuaeth ar gyfer pob trosedd yn cael eu harestio fwy na'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth yn gyffredinol. Yn yr un modd roedd diffynyddion Du, Asiaidd ac Ethnigrwydd Cymysg yn cael eu cynrychioli mewn cyfrannau uwch o'r rhai a gyhuddwyd yn 2006-07 a'r achosion hynny a gwblhawyd yn Ebrill 2006-Medi 2006, o gymharu â'r boblogaeth.
- Mae data cyhuddo 2006-07 y CPS yn dangos bod nifer gyfatebol yn llai o bobl Dduon (57.5 y cant) ac Asiaidd (55 y cant) dan amheuaeth wedi'u cyhuddo o gymharu â phobl Wyn dan amheuaeth (59.6 y cant). Yr oedd canran uwch o ganlyniadau llwyddiannus hefyd gyda diffynyddion Gwyn nag ar gyfer diffynyddion Du, Asiaidd neu Ethnigrwydd Cymysg.
- Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, rhaid trin yr holl ddata am ethnigrwydd gyda gofal.
- Mae cofnod gwael o ryw dioddefwyr,²² ond, ble cafodd ei gofnodi, roedd ychydig dan 90 y cant o'r dioddefwyr yn fenywod.

²⁰ Mae data lladdiadau yn y CPS yn cynnwys llofruddiaethau, ceisio llofruddio, bygythiadau neu gynllwynio i lofruddio, dynladdiad ac achosi marwolaeth trwy ddwysgipio cerbyd.

²¹ Mae achosion dan y Ddeddf Gwarchod rhag Aflonyddu yn cael eu cofnodi fel troseddau yn hytrach nag yn ôl diffynydd felly nid yw'n bosib eu torri i lawr yn ôl rhyw neu ganlyniad.

²² Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) y CPS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Gofynnwyd i Ranbarthau Lunio cytundebau rhanbarthol lleol o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am roi data am ddioddefwyr yn y system, naill ai'r CPS neu'r Unedau Gofal Tystion (WCU). Mewn rhai Rhanbarthau gallai fod yn gyfrifoldeb ar y cyd. Dylid nodi mai gweithwyr a gyflogir gan yr heddlu yw mwyafrif y staff mewn WCU ac felly ni ellir eu gorfodi i gofnodi'r wybodaeth hon ar ran y CPS. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data.

Treisio a throsteddau rhywiol

- O edrych ar ryw y diffynyddion ar gyfer treisio ac ymosodiadau rhywiol gwelir mai dynion oedd yn gyfrifol am 99 y cant o achosion treisio a 96 y cant o achosion trosteddau rhywiol.
- Ar gyfer Ebrill-Mehefin 2006, erlynwyd 53 y cant o ddynion yn llwyddiannus am dreisio, o gymharu â 67 y cant ar gyfer trosteddau rhywiol eraill.
- Prin yw'r menywod a gafodd eu herlyn am dreisio; o blith y rhai a erlynwyd am drosteddau rhywiol eraill, plediodd 73 y cant yn euog.
- Ni chofnodwyd ethnigrwydd ar gyfer 12 y cant o achosion. Ble cafodd ei gofnodi, yr oedd cyfran is o drosteddwyr Gwyn nag yn y boblogaeth yn gyffredinol, a chyfran uwch o drosteddwyr Du, Asiaidd ac Ethnigrwydd Cymysg. Yn debyg i'r data am drais yn y cartref, yr oedd cyfran uwch o ganlyniadau llwyddiannus gyda diffynyddion Gwyn hefyd nag ar gyfer diffynyddion Du, Asiaidd neu Ethnigrwydd Cymysg. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth drin pob data am ethnigrwydd.
- Wrth edrych ar ryw y dioddefwyr mewn achosion treisio, dim ond mewn 31 y cant o'r achosion y cofnodwyd y rhyw²³, ac, o'r rhai lle cofnodwyd y rhyw, roedd 89 y cant o'r dioddefwyr yn fenywod.

Cam-drin plant

- Cafodd 98% o achosion trostedd rhywiol cam-drin eu cyflawni gan ddynion.
- Bu 10 lladdiad: roedd 8 o'r 10 diffynnydd yn ddynion ac fe erlynwyd 7 yn llwyddiannus.
- Roedd dynion yn gyfrifol am 75 y cant o'r achosion a oedd yn ymwneud â throsteddau corfforol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y rhywiau o ran canlyniadau'r rhai a erlynwyd.
- Ni chofnodwyd ethnigrwydd mewn 9 y cant o achosion. Ar gyfer achosion cam-drin plant yn rhywiol ble cafodd ei gofnodi, yr oedd cyfran uwch o ddiffynyddion Gwyn a chanrannau is o ddiffynyddion Du ac Asiaidd o gymharu â'r boblogaeth. Roedd patrymau canlyniadau llwyddiannus yn debyg i'r rhai ar gyfer achosion trais yn y cartref a threisio. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, dylid cymryd gofal wrth drin pob data am ethnigrwydd.
- Wrth edrych ar ddioddefwyr cam-drin plant gwelir mai mewn 31 y cant o'r achosion yn unig y cofnodwyd y rhyw. O'r rhain, roedd 67 y cant yn ferched.²⁴

Masnachu pobl a phuteindra

- Ar hyn o bryd, nid yw data am fasnachu pobl a phuteindra ond ar gael o'r gronfa ddata "trosteddau", sydd ar wahân ac yn wahanol i'r gronfa ddata ar gyfer "diffynyddion" sy'n cofnodi proffil diffynyddion a dioddefwyr yn ogystal â chanlyniadau. Felly ni ellir torri i lawr yn ôl rhyw nac ethnigrwydd o fewn y CPS ar hyn o bryd. Daeth y data cyfyngedig isod oddi wrth y Swyddfa Gartref.
- Ar 15 Ionawr 2007, cafwyd ymateb gan yr Ysgrifennydd Cartref i gwestiwn am y cyswllt rhwng trais yn y cartref a'r fasnach mewn menywod. Dywedodd bod Ymgyrch Pentameter – sef ymgyrch orfodi genedlaethol am dri mis – wedi nodi 87 dioddefwr posib yn y fasnach mewn pobl ar gyfer camfanteisio rhywiol, a 12 ohonynt dan oed neu'n blant (Hansard). Dywedodd Margaret Moran AS yr amcangyfrifir yn yr Wcráin fod 50 y cant o bobl sy'n cael eu masnachu wedi dioddef yn sgil trais yn y cartref.
- Mae data'r Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod 182 o ddiffynyddion wedi'u dedfrydu am drosteddau'n gysylltiedig â'r fasnach mewn pobl yn 2005, ac o'u plith roedd 12 yn gysylltiedig â throsteddau rhywiol. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad yn ôl rhyw y person yn y data.

²³ Ibid

²⁴ Ibid

- Rhwng Mawrth 2003 a Mehefin 2007, cyfeiriwyd 674 o fenywod at Brosiect POPPY oherwydd iddynt gael eu masnachu ar gyfer camfanteisio rhywiol, neu iddynt honni hynny. Rhoddwyd llety a chefnogaeth i 145 o'r menywod hyn, a chafodd 74 gymorth drwy gyfrwng gwasanaeth allgymorth.
- Mae ystadegau'r Swyddfa Gartref o 2005 yn dangos i 269 o ddynion (ac un fenyw) gael rhybuddiad am blagio pen ffordd (*kerb crawling*); rhoddwyd rhybuddiad i 42 o ddynion am lithio (*soliciting*) menywod a 23 o ddynion am lithio dynion. Ni roddwyd rhybuddiad i unrhyw fenyw. Euogfarnwyd 629 dyn a chwe benyw am blagio pen ffordd, ac euogfarnwyd 36 dyn am lithio. Yn 2006, cofnodwyd 332 trosedd o blagio pen ffordd.²⁵

Data am fenywod sy'n droseddwyr

- Nodwyd yn *Adroddiad Corston 2007* fod menywod â hanes o drais a chamdriniaeth yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol ac yn aml, y gellir eu disgrifio fel dioddefwyr yn ogystal â throseddwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod problemau gyda pherthnasau yn nodwedd amlwg ar lwybr y menywod at droseddu a bod llawer o fenywod yn y carchar wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn emosiynol ac yn gorfforol.
- Nodwyd yn *Adroddiad Corston* bod un fenyw o bob tair yn y carchar wedi dioddef cael eu cam-drin yn rhywiol, o gymharu ag un dyn mewn deg.
- Mewn arolwg a gynhaliwyd yng Ngharchardai Ei Mawrhydi, datgelwyd bod bron i hanner y menywod a holwyd wedi cael profiad o drais yn y cartref, a thraean ohonynt wedi wynebu ymosodiad rhywiol.²⁶ Nodwyd hefyd fod y ffigur hwn yn debyg i arolwg a gynhaliwyd yng Ngharchar Holloway, ble dadlennodd 36 y cant o fenywod iddynt gael profiad o gam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod a 45 y cant eu bod wedi profi camdriniaeth gorfforol.

Data am briodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd a llurgunio organau rhywiol merched

- Ym Mehefin 2007, sefydlwyd cynlluniau peilot gan y CPS mewn pedwar o Ranbarthau'r CPS²⁷ i amlygu achosion o briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau anrhydedd. Mae'r cynlluniau peilot yn ceisio gwella erlyniadau a chefnogaeth i ddiodefwyr a bydd o gymorth i fesur y dynameg rhyw yn y troseddau hyn. Dengys data cenedlaethol, yn unol â'r holl achosion o gam-drin yn y cartref, mai dynion yw mwyafrif y diffynyddion a'r diodefwyr yn fenywod. Ni chafodd unrhyw achos o FGM ei erlyn hyd yn hyn, er i nifer fod yn destun ymchwiliad gan yr heddlu.

Data am droseddau yn erbyn pobl hŷn

- Mae rhai "troseddau yn erbyn pobl hŷn" yn cael eu cynnwys o fewn y strategaeth VAW oherwydd y gorgyffwrdd â throseddau VAW eraill megis trais yn y cartref. Cydnabyddir mai prif ganolbwynt y troseddau hyn yw oedran yn hytrach na rhyw y person. Menywod yw mwyafrif y bobl hŷn ac felly mae rhagor o fenywod yn debygol o fod yn ddiodefwyr troseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae'r ymchwil yn dangos y gall fod gorgyffwrdd gyda thrais yn y cartref – er enghraifft, gallai fod yn drais yn y cartref sydd wedi parhau ers degawdau neu'n bobl hŷn yn cael eu cam-drin gan eu gofalwyr sydd hefyd yn bartneriaid neu'n aelodau o'u teulu. Gan fod y polisi wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, nid oes data'r CPS ar gael hyd yn hyn.

Cyhoeddiadau anllad ac aflonyddu rhywiol

- Ni chasglwyd data hyd yma mewn perthynas â'r materion hyn.

²⁵ Nid oedd ystadegau 2006 a roddwyd i'r CPS gan y Swyddfa Gartref wedi'u dadansoddi yn ôl rhyw y person. Defnyddir ffigurau 2005 i ddangos dadansoddiad o'r troseddau hyn yn ôl rhyw.

²⁶ Uned Allgáu Cymdeithasol (2002) *Reducing re-offending by ex-prisoners*, Llundain: Uned Allgáu Cymdeithasol.

²⁷ Sir Gaerhirfryn, Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gorllewin Swydd Efrog

Atodiad C: Trefnau Ilywodraethol VAW

- 1 Sefydlwyd Tîm VAW, yn cynnwys arweinwyr o'r Tîm DV Cenedlaethol a'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Busnes. Bydd y Tîm yn adrodd i Grŵp Sicrwydd Prosiect VAW (PAG).
- 2 Bydd y Grŵp Sicrwydd Prosiect VAW, yn cynnwys cynrychiolwyr mewnol a rhai allanol, yn goruchwyllo'r strategaeth a'r cynlluniau gweithredu.
- 3 Bydd Grŵp Ymgynghori Allanol VAW (ECG) yn ymgysylltu ag ystod ehangach o gynrychiolwyr ar draws y llinynnau VAW. Bydd yr asiantaethau a'r sefydliadau allweddol hyn ym maes VAW yn cynghori'r CPS ar ei waith VAW. Bydd yr ECG yn anfon tri chynrychiolydd i'r PAG.
- 4 Bydd y PAG yn adrodd i Fwrdd VAW, a fydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Adain Polisi a Datblygu Busnes
- 5 Bydd y Bwrdd VAW yn adrodd ar lefel Bwrdd y CPS

Atodiad D: Cynlluniau gweithredu 2008-11

Mae'r cynllun gweithredu cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod (VAW) yn cael ei nodi isod. Fe'i trefnir yn unol â'r targedau PSA ac mae'n dangos y cysylltiadau rhwng gwahanol linyddau unigol VAW. Bydd yn cael ei ehangu trwy gynnwys themâu yn chwarter cyntaf 2008-09.

Mae yna hefyd wyth o gynlluniau gweithredol sy'n benodol i'r llinyddau unigol, a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith monitro ar draws y llinyddau unigol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r prif linyddau VAW – trais yn y cartref, priodas dan orfod a throseddau anrhydedd, llurgunio organau rhywiol merched, treisio a throseddau rhywiol, y fasnach mewn pobl, puteindra, troseddau yn erbyn pobl hŷn, pornograffi a cham-drin plant. Cawsant eu datblygu mewn cyswllt â swyddogion arweiniol perthnasol yng Nghyfarwyddiaeth Polisi y CPS, y Gyfarwyddiaeth Datblygu Busnes (BDD) a'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDU). Mae'r rhain ar gael ar eich cais.

Y mae'n eglur o gynnwys y cynlluniau gweithredu sy'n benodol i linyddau unigol, y bydd gwaith i ymdrin â phob un o'r llinyddau VAW yn dechrau ar gamau gwahanol iawn i'w gilydd (er enghraifft, megis dechrau y mae gwaith y CPS ar drais yn seiliedig ar anrhydedd a phriodas dan orfod, tra bo gwaith ar drais yn y cartref wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf). O ganlyniad, er ein bod yn derbyn y bydd gwaith ar bob llinyn yn mynd rhagddo ar wahanol gyflymder, y canlyniad dymunol yw y dylai pob llinyn gyrraedd ei dargedau cenedlaethol ei hun erbyn 2011.

Mae'r holl gynlluniau gweithredu yn mynd o 2008 tan 2011, ond byddant yn cael eu harolygu'n barhaus. Bydd cynlluniau 2008-09 yn canolbwyntio ar resymoli a chydlynu'r holl linyddau VAW, gan nodi'r goblygiadau o ran cost ochr yn ochr â sefydlu systemau i weithredu'r strategaeth, megis y system rheoli perfformiad a systemau o fonitro bodlonrwydd dioddefwyr, tystion a rhanddeiliaid.

Yn 2009-11 bydd y strategaeth yn cael ei hymgorffori ym musnes creiddiol y CPS a rhoddir y canllawiau VAW ar waith yn ogystal â hyfforddiant, ac adrodd ar berfformiad erlyniadau. Fe fyddwn ni hefyd yn monitro diogelwch dioddefwyr a'r gefnogaeth a roddir iddynt ac yn monitro bodlonrwydd dioddefwyr a rhanddeiliaid.

Gweithgareddau a thasgau allweddol	C1	C2	C3	C4	2009-10	2010-11
	Cyflawnwyd 2008-09	Cyflawnwyd 2008-09	Cyflawnwyd 2008-09	Cyflawnwyd 2008-09	Cyflawnwyd	Cyflawnwyd
CYNLLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD						
Meysydd canlyniad/Amcan 1: Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CJS trwy ddod â rhagor o droseddwy'r troseddau VAW gebron llys						
Meysydd Gweithredu - Monitro troseddau VAW, gosod targedau ac ymdrin ag unrhyw fylchau yn y data						
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawni ar draws y Llywodraeth.						
Tasgau i. Sefydlu dangosydd VAW, gyda tharged i ostwng canlyniadau aflwyddiannus mewn troseddau VAW, ar sail gynyddrannol fesul cam o 2008-09 i gynnwys:						
<i>Trais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol</i>	C1					
<i>Yr uchod i gyd, gan ystyried cynnwys priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd, cam-drin plant a throseddau yn erbyn pobl hŷn.</i>				C1		
<i>Yr uchod i gyd, gan ystyried cynnwys puteindra a'r fasnach mewn pobl.</i>						C1
ii. Gweithredu dangosydd VAW, gyda thargedau (gweler gostwng canlyniadau aflwyddiannus ar gyfer pob targed, isod):	C1			29%		
iii. Gwerthuso data VAW gan gynnwys targedau ar gyfer erlyniadau aflwyddiannus.	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol
iv. Dadansoddi data 2007-08 o'r 64 SDVC.			C3			
v. Cyhoeddi adroddiad VAW.			C3		Blynyddol	Blynyddol
vi. Ystyried sut bydd VAW yn ffitio gyda fframwaith Paneli Craffu ar Gasineb:						
<i>Pennu hyd a lled y prosiect</i>					C1	
<i>Opsionau presennol</i>					C3	
<i>Cwblhau cynlluniau</i>					C4	
<i>Cyflawni'r drefn newydd</i>						C1

Gweithgareddau a thasgau allweddol	C1 2008-09	Cyflawnwyd	C2 2008-09	Cyflawnwyd	C3 2008-09	Cyflawnwyd	C4 2008-09	Cyflawnwyd	2009-10	Cyflawnwyd	2010-11	Cyflawnwyd
CYNLLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD												
Meysydd canlyniad/Amcan 1: Gwella effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd y CJS trwy ddod â rhagor o droseddwr troseddau VAW gerbron lly												
Meysydd Gweithredu - Gostwng erlyniadau aflwyddiannus ym maes troseddau VAW												
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawni ar draws y Llywodraeth.												
Tasgau i. Gostwng canlyniadau aflwyddiannus ym maes troseddau VAW i 29% , gydag is-dargedau o:							29%					
<i>Trais yn y Cartref</i>							28%		26%			24%
<i>Treisio</i>							41%					
<i>Troseddau Rhywiol</i>							28%					
<i>Gosod targedau newydd yn flynyddol</i>							C4		C4			C4
ii. Pennu rhychwant a datblygu Canllaw VAW i hysbysu erlynywr am y cysylltiadau rhwng polisïau a chanllawiau sy'n bodoli eisoes, a goblygiadau o ran rhyw y person.												
<i>Pennu rhychwant y prosiect</i>						C3						
<i>Llunio canllawiau terfynol</i>									C1			
<i>Trais yn y Cartref adolygu Polisi a Chanllawiau:</i>												
<i>Grwpiau Ffocws</i>									C2			
<i>Cwblhau</i>												
<i>Priodas dan Orfod, yr hyn a elwir yn Droseddau Anrhydedd a Llurgunio Organau Rhywiol Merched ystyried canllawiau</i>												
<i>Treisio adolygu polisi</i>												
iii. Datblygu adolygiad o Bolisi'r CPS a/neu ganllaw o llynnau VAW unigol.												
<i>Y Fasnach mewn Pobl diweddar canllawiau</i>	C1											C1
<i>Puteindra diweddar canllawiau</i>	C1											C1
<i>Troseddau yn erbyn pobl hŷn lansio polisi a chanllawiau</i>												
<i>Adolygu Polisi</i>												
<i>Plant a Phobl Ifanc lansio canllawiau</i>												
<i>Adolygu Polisi</i>												
									2009-10			

Gweithgareddau a thasgau allweddol	C1	C2	C3	C4	2009-10	2010-11
	Cyflawmwyd 2008-09	Cyflawmwyd 2008-09	Cyflawmwyd 2008-09	Cyflawmwyd 2008-09	Cyflawmwyd 2009-10	Cyflawmwyd 2010-11
CYNLLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD						
Meysydd canlyniad/Amcan 1: Gwella effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd y CJS trwy ddod â rhagor o droseddwy'r troseddau VAW getbron llys						
Meysydd Gweithredu - Gostwng erlyniadau aflwyddiannus ym maes troseddau VAW						
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawni ar draws y Llywodraeth.						
iv. Cyswilt â llinynnau gwaith prif ffrwd - Cyhuddo, CJSS, Gofal Dioddefwyr a Thystron a Chyflawni, Troseddau Casineb ac Ymgysylltu â'r Gymuned.	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol
v. Cyflawni hyfforddiant mewn llinynnau VAW.	C1					C4
<i>Trais yn y Cartref cwblhau hyfforddiant</i>						
<i>Treisio - Cwblhau hyfforddiant i gydgyssylltwyr ac erlynywyr arbenigol</i>						
<i>Y Fasnach mewn Pobl hyfforddiant ar gyfer unedau gwaith achosion cymhleth</i>			C4			
<i>Troseddau yn erbyn pobl hŷn diwrnod hyfforddiant</i>			C3			
<i>Seminar ar Bornograffi</i>	C1					
vi. Cysylltu VAW â rhaglenni hyfforddiant yn y dyfodol gan gynnwys trwy achosion Rhaglenni Erlynywyr Rhagweithiol (PPP).						
<i>Pennu rhychwant y prosiect</i>	C1					
<i>Llinynnau unigol i ddatblygu achosion Rhaglenni Erlynywyr Rhagweithiol (gweler cynlluniau unigol)</i>						
<i>Opsionau presennol</i>			C3			
<i>Cwblhau</i>				C4		

Gweithgareddau a thasgau allweddol	C1 2008-09	Cyflawnwyd	C2 2008-09	Cyflawnwyd	C3 2008-09	Cyflawnwyd	C4 2008-09	Cyflawnwyd	2009-10	Cyflawnwyd	2010-11	Cyflawnwyd
CYNILLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD												
Meysydd canlyniad/Amcan 1: Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CJS trwy ddod â rhagor o droseddwy'r troseddau VAW gerbron llys												
Meysydd Gweithredu - Gwell cydgyssylltu a rhesymoli'r gwaith ar draws y llinynnau hyn.												
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawni ar draws y Llywodraeth.												
Tasgau i. Rhesymoli cydgyssylltwyr presennol ar draws llinynnau VAW.												
<i>Pennu rhychwant y prosiect</i>	C1											
<i>Mapio cydgyssylltwyr presennol</i>			C2									
<i>Cwblhau cynlluniau</i>					C3							
ii. Ystyried rhesymoli erlynwyr VAW arbenigol.												
<i>Pennu rhychwant y prosiect</i>	C1											
<i>Mapio erlynwyr arbenigol</i>			C2									
<i>Cyflwyno papur opsiynau i'r PAG</i>					C3							
<i>Cwblhau cynlluniau</i>							C4					
iii. Rhannu ymarfer da VAW trwy gydgyssylltwyr Rhanbarthol, Tîm VAW, Grŵp Sicrwydd Prosiect (PAG).	Parhaus		Parhaus		Parhaus		Parhaus		Parhaus		Parhaus	
iv. Seminar ar gyfer cydgyssylltwyr ar draws llinynnau VAW.	C1						C4		Bob dwy flynedd		Bob dwy flynedd	

Gweithgareddau a thasgau allweddol	C1	C2	C3	C4	2009-10	2010-11	Cyflawnydd
	Cyflawnydd	Cyflawnydd	Cyflawnydd	Cyflawnydd	Cyflawnydd	Cyflawnydd	
CYNLLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD							
Meysydd canlyniad/Amcan 1: Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid							
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawmi ar draws y Llywodraeth.							
Tasgau i. Cynnwys cynychiolwyr cymunedol a rhanddeiliaid yng Ngrŵp Sicrwydd Prosiect (PAG) VAW.	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	Chwarterol	
ii Cysylltu ar draws y llywodraeth, yn benodol gyda'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, y Swyddfa Gartref, ACPO a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ymdrin â hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid.	Parhaus	Parhaus	Parhaus	Parhaus	Parhaus	Parhaus	
iii. Adolygu pob llinyn ar ymgysylltu cymunedol ac ymwneud rhanddeiliaid.				C4	Blynyddol	Blynyddol	
iv. Datblygu dulliau i fesur barn rhanddeiliaid.							
<i>Pennu rhychwant y prosiect</i>		C2					
<i>Opsynau presennol</i>				C4			
v. Mesur barn rhanddeiliaid.							
vi. Datblygu Cynllun Cyfathrebu cyffredinol a chynlluniau unigol ar gyfer pob llinyn VAW.	C1				Blynyddol	Blynyddol	

Gweithgareddau a thasgau allweddol	C1 2008-09		C2 2008-09		C3 2008-09		C4 2008-09		2009-10		2010-11	
	Cyflawmwyd		Cyflawmwyd		Cyflawmwyd		Cyflawmwyd		Cyflawmwyd		Cyflawmwyd	
CYNILLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD												
Meysydd Gweithredu/Amcan 3: Gwella cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion												
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawni ar draws y Llywodraeth.												
Tasgau i. Adolygu darpariaeth gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr a thystion VAW.												
ii. Gweithio ar draws y llywodraeth ar ehangu pellach ar IDVA, ISVA, ystyried cefnogaeth arbenigol i ddiodeffwyr troseddau VAW; ac unrhyw estyniad i SDVC.												
iii. Gweithio gyda'r Uned Cyflwyno Gofal i Ddiodeffwyr a Thystion i ystyried systemau cefnogaeth i ddiodeffwyr VAW a sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro.												
iv. Datblygu system i fesur bodlonrwydd, diogelwch diodeffwyr a/neu fynediad at gefnogaeth.												
v. Mesur bodlonrwydd, diogelwch a mynediad at gefnogaeth i'r diodeffwr.												
vi. Gweithio gyda HR i ymdrin ag unrhyw oblygiadau ar gyfer polisiau ac arferion staff.												

Gweithgareddau a thasgau allweddol		C1 2008-09	Cyflawnwyd	C2 2008-09	Cyflawnwyd	C3 2008-09	Cyflawnwyd	C4 2008-09	Cyflawnwyd	2009-10	Cyflawnwyd	2010-11	Cyflawnwyd
CYNLLUN CENEDLAETHOL CYFFREDINOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD													
Meysydd canlyniad/Amcan 4 : Gwella ein dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymdrin ag unrhyw anghyfarfaledd													
Bydd y cynlluniau hyn yn cysylltu â chynlluniau cyflawni ar draws y Llywodraeth.													
Tasgau i. Dadansoddi proffiliau cydraddoldeb pob diffynnydd a dioddefwr mewn achosion VAW fel rhan o fonitro data yn gyffredinol.		Chwarterol		Chwarterol		Chwarterol		Chwarterol		Chwarterol		Chwarterol	
ii. Sicrhau bod Unedau Gofal Tystion wedi sefydlu systemau cefnogi yn eu cyfeirlyfr cefnogi WCU ar gyfer dioddefwyr a thystion o bob cymuned .										C1		Blynyddol	

Fe gewch chi ragor o gopïau o'r daflen hon gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
50 Ludgate Hill
Llundain EC4M 7EX

Ffôn 020 7796 8442

Ffacs 020 7796 8030

E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121